Estyn

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-2021



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Prif Arolygydd** | **5** |
| **Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad** | **7** |
| **1.1 Trosolwg** | **8** |
| Ein diben | 8 |
| Ein gweithgareddau | 8 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | 8 |
| Crynodeb o berfformiad | 8 |
| **1.2 Dadansoddi perfformiad** | **12** |
| **Sut y deliom â'r pandemig COVID-19** | 12 |
| Cam 1: Datrys – Mynd i'r afael â'r bygythiad uniongyrchol i iechyd | 12 |
| Cam 2: Gwydnwch – Cynorthwyo parhad dysgu tra'r oedd darparwyr ar gau | 13 |
| Cam 3: Ail-greu – Casglu a rhannu gwybodaeth | 14 |
| Cam 4: Dychwelyd – Ailgydio yn ein gwaith | 15 |
| Cam 5: Diwygio – Cynghori ar ddiwygio addysg yn y tymor hir a chyfrannu ato | 16 |
| **Amcan Strategol 1**: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 18 |
| **Amcan Strategol 2**: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru | 28 |
| **Amcan Strategol 3**: Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 33 |
| **1.3 Sut y cyflawnwn ein gwaith** | **37** |
| **Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd** | **52** |
| **2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol** | **53** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 53 |
| Y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 54 |
| Y datganiad llywodraethu | 54 |
| **2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff** | **60** |
| **2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio** | **68** |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn | 68 |
| **Adran 3: Datganiadau ariannol** | **72** |

3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr 73
3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol 74
3.3 Datganiad ar lifoedd arian 75
3.4 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 76
3.5 Nodiadau i gyfrifon adnoddau adrannol 77

**Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn 89**

**Atodiad 2: Adroddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 90**

## Rhagair y Prif Arolygydd



Mae'r pandemig COVID-19 wedi newid bywydau pobl ar raddfa ddigynsail. Mae wedi cael effaith aruthrol ar economïau ac wedi achosi tarfu mawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru. Mae'r pandemig wedi rhoi ein gwydnwch a'n gallu i addasu ar brawf, yn enwedig o ran dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr. Yn benodol, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant, a'n holl randdeiliaid, am y ffordd y maent wedi delio, ac yn parhau i ddelio, â'r argyfwng presennol.

Yn Estyn, aeth y broses o drosglwyddo i weithio o bell i'r holl staff yng ngwanwyn 2020 yn hwylus a pharhaodd trwy gydol y flwyddyn. Addasom ein rhaglen waith yn gyflym, gan atal arolygiadau ac ymweliadau eraill, a dargyfeirio ein hadnoddau i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r canllawiau, yr offer a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen i helpu i ddysgu barhau. Rydym wedi cyfrannu at bron pob agwedd ar y cynllun cenedlaethol i gefnogi lles, ac i sicrhau y gallai disgyblion barhau i ddysgu pan nad oeddent yn gallu mynychu eu hysgol, UCD, coleg neu ddarparwr addysg a hyfforddiant arall arferol. Cyhoeddom ystod o ganllawiau i helpu addysgwyr wynebu heriau'r pandemig, gan gynnwys adroddiadau thematig a chipolygon sector ar gynorthwyo Cymru i barhau i ddysgu. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion y gwaith hwnnw a'r cyhoeddiadau hynny.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom 1,332 o alwadau ffôn neu ymweliadau ymgysylltu â bron pob ysgol gynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, ac UCDau hefyd. Trafodom eu barnau ynglŷn â'r ffordd yr aethant ati i gefnogi dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr bregus, ynglŷn â sut y rhoesant ganllawiau ar waith i gefnogi dysgu disgyblion, ac ynglŷn â'r cymorth lleol a rhanbarthol a gawsant ers dechrau'r pandemig. Hefyd, cynhaliom alwadau ac ymweliadau bugeiliol ag ysgolion a gynhelir sydd mewn categori statudol. Yn y sector ôl-16, gwnaethom alwadau ymgysylltu â'r holl ddarparwyr a phartneriaethau i drafod dulliau o barhau dysgu, gan gynnwys dysgu cyfunol, a sut yr oedd darparwyr a phartneriaethau'n darparu cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad dysgwyr.

Nid yw rhannu arfer ddiddorol ac arloesol erioed wedi bod yn bwysicach. Eleni, cyhoeddom astudiaethau achos llawn o arfer effeithiol a chameos byrrach yn ymwneud â'r modd yr oedd darparwyr yn ymdopi â'r pandemig. Hefyd, cyhoeddom adroddiadau thematig i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Cyhoeddom grynodebau eang ac amserol o ddatblygiadau'n ymwneud â'r pandemig yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu. Ar gais Llywodraeth Cymru, ysgrifennom lythyrau at yr holl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gan nodi ein casgliadau ar eu gwaith ar sail ein hymgysylltiad â

rhanddeiliaid. Cyhoeddom adroddiad yn seiliedig ar y llythyrau yn Ionawr 2021 o'r enw 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'.

Lansiwyd f'Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020 yn Rhagfyr 2020 ac mae'n cynnwys adroddiadau sector sy'n darparu adolygiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y rhan gyntaf o'r flwyddyn, yn ogystal ag adran thematig ar effaith y pandemig yn ystod ail hanner y flwyddyn academaidd. Un o'n hadroddiadau thematig a gafodd ei lawrlwytho amlaf yn 2020-2021 oedd 'Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig'. mMae'n cynorthwyo ysgolion sy'n parhau i ystyried eu cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan amlygu ffyrdd iddynt allu adeiladu ar gryfderau a dileu rhwystrau.


Rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi diwygio addysg a helpu cryfhau a gwella'r system addysg yng Nghymru. Yng ngwanwyn 2021, cynhaliom y weminar gyntaf mewn cyfres ohonynt i helpu ysgolion baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym yn ymroi hefyd i wrando ar ein rhanddeiliaid a dysgu ganddynt. Yn ystod y flwyddyn, parhaom i gynnal fforymau rhanddeiliaid, cyfarfodydd grŵp cyfeirio penaethiaid, a diweddariadau ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig trwy gyfarfodydd ar-lein. Hefyd, cryfhaom ein hymgysylltiad â rhanddeiliad drwy sefydlu grŵp cyfeirio newydd ar gyfer rhieni a gofalwyr, fforwm athrawon, a fforwm gwasanaethau gwaith ieuenctid.

Gan ystyried yr amgylchiadau, rwyf yn falch fod canlyniadau Estyn o arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil yn 2020 yn dangos ein bod yn cadw gweithlu ymgysylltiedig iawn. Mae ein mynegai ymgysylltu yn ein gosod yn bumed uchaf o ran ymgysylltu o'r 106 o adrannau a lenwodd yr arolwg.

Hwn yw f'adroddiad blynyddol a chyfrifon diwethaf fel Prif Arolygydd, ac fel bob amser, rwy'n hynod falch o 'nghydweithwyr sydd wedi gweithio'n broffesiynol ac yn frwdfrydig trwy gydol y flwyddyn heriol iawn hon. Hoffwn unwaith eto ddiolch iddynt am ein cyflawniad sylweddol yn 2020-2021, a diolch hefyd i'n holl randdeiliaid am eich cefnogaeth a'ch adborth parhaus.

Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifyddu
Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 5 Gorffennaf 2021.

# Adran 1
## Yr Adroddiad Perfformiad



# 1.1 Trosolwg

## Ein diben

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cefnogi rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru. Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Fe wnaeth y pandemig COVID-19 newid bywydau pobl, cafodd effaith aruthrol ar economïau a chreodd heriau mawr i systemau addysg ledled y byd. Yn y cyfnod hwn o argyfwng, bu ffocws ein gwaith ar lywio datblygu polisi cenedlaethol, cefnogi'r system addysg i gyflawni parhad dysgu, a chyfrannu at adferiad y system addysg yng Nghymru.

## Ein gweithgareddau

Mae trosolwg strategol sy'n amlinellu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ynghyd â'n tri amcan strategol, ar gael ar ein gwefan. Mae'r adran 'amdanom ni' ar ein gwefan yn rhoi eglurhad pellach a manylach ynglŷn â'r gwaith a wnawn.

Ceir manylion ein rolau arolygwyr ar ein gwefan ynghyd â'n strwythur sefydliadol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Mae'r Ddeddf yn amlinellu diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf. Mae **Atodiad 2** yr adroddiad hwn yn nodi sut rydym yn cyfrannu at y Ddeddf ac yn parhau i adeiladu'r nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein llywodraethu a'n cyflawniad gweithredol. Mae'r Atodiad yn cynnwys cyfeiriadau at brosiectau allweddol, adroddiadau, canlyniadau arolygon, polisi ac arweiniad, astudiaethau achos, adroddiadau thematig, blogiau a llawer o weithgareddau eraill.

**Crynodeb o berfformiad**

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol, sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol am y flwyddyn sy'n cefnogi cyflawni ein cenhadaeth, ein hamcanion ac yn adlewyrchu sut y cyflawnwn ein gwaith.

Cafodd ein cynllun ar gyfer 2020-2021 ei addasu i fodloni'r sefyllfa'n ymwneud â COVID-19. O angenrheidrwydd, lleihaom rywfaint o'n gweithgareddau busnes arferol, fel arolygu pan fyddwn yn adrodd ar berfformiad, ond parhaom i fesur a monitro perfformiad trwy gydol y flwyddyn er mwyn helpu:

- gwerthuso effeithiolrwydd ein prosesau
- dysgu o brofiad

- gwella perfformiad
- gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau

Caiff ‘cyflawniad yn erbyn dangosyddion perfformiad’ ei fonitro bob chwarter gan Fwrdd Strategaeth Estyn, a chyhoeddir y canlyniadau trwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan.

Cynhyrchwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-2020 o fewn y graddfeydd amser statudol ac ni chafodd cyfrifon adnoddau blynyddol Estyn eu cymhwyso gan archwilwyr allanol.

Yn 2020-2021, cyflawnom ein lefel perfformiad ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o achosion.  Mae’r mesur dangosyddion isod yn nodi ein lefel perfformiad trwy gydol yr adroddiad.



Perfformiad:

ni fodlonwyd | bodlonwyd yn rhannol | bodlonwyd i raddau helaeth | bodlonwyd

**Roedd digwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys**

### Haf 2020

Ar ôl  atal yr holl weithgarwch arolygu o ganlyniad i'r pandemig, cyhoeddom gyngor i arweinwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes yr ysgol a'r UCD.  Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), rhyddhaom 'Datblygu Dulliau i Gefnogi Dysgu o Bell'.

Cyhoeddom ystod o ganllawiau i helpu addysgwyr wynebu heriau'r pandemig, gan gynnwys adroddiadau thematig a chipolygon sector ar gynorthwyo Cymru i barhau i ddysgu.  Ar y cyd â'r pedwar consortiwm rhanbarthol, rhyddhaom ganllawiau 'Modelau Dysgu Cyfunol' i helpu'r broses o ddychwelyd i'r ysgol o fis Medi.

Gwnaeth arolygwyr cyswllt ôl-16 alwadau o bell ag arweinwyr yn yr holl ddarparwyr a phartneriaethau ynghylch y modd yr oeddent yn cefnogi lles dysgwyr a staff ac yn parhau â dysgu.

Ail-lansiom ein gwefan gyda dyluniad, gosodiad a swyddogaeth newydd.

### Hydref 2020

Gwnaethom 593 o alwadau ffôn ymgysylltu â sampl eang o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig, ac UCDau.  Gofynnom am eu barnau ynglŷn â'r gefnogaeth leol a rhanbarthol yr oeddent wedi'i chael ers dechrau'r tymor, a sut roeddent yn cynorthwyo dysgwyr bregus ac yn rhoi canllawiau ar waith i gefnogi dysgu disgyblion.

Hefyd, dechreuom ymweliadau bugeiliol ag ysgolion a gynhelir sydd mewn categori statudol.

Ailddechreuom gynnal ein fforymau rhanddeiliaid, ond trwy gyfarfodydd ar-lein, ac ailddechreuom ein grŵp cyfeirio penaethiaid a diweddariadau bob tymor i Arolygwyr Cofrestredig.

Parhaodd arolygwyr cyswllt ôl-16 i wneud galwadau ymgysylltu o bell â'r holl ddarparwyr a phartneriaethau i drafod dulliau o barhau dysgu, gan gynnwys dysgu cyfunol, a sut yr oedd darparwyr a phartneriaethau'n darparu cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad dysgwyr.

Parhaom i gyhoeddi blogiau, cwestiynau cyffredin, ac adnoddau gwella i gefnogi addysg a hyfforddiant.

We strengthened our stakeholder engagement by setting up a parents and carers reference grouand a teacher forum.

**Gwanwyn 2021**

Cynhaliom 19 o ddigwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau rhanddeiliaid a chyrsiau hyfforddi (40 trwy gydol y flwyddyn).

Cynhaliom y weminar gyntaf mewn cyfres ohonynt i helpu ysgolion baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Fe wnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o wasanaethau gwaith ieuenctid mewn fforwm newydd.

Gwahoddwyd athrawon, tiwtoriaid, hyfforddwyr ac aseswyr o'r sectorau ôl-16 gennym i gymryd rhan mewn pedwar fforwm ar-lein i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cyhoeddom dri adroddiad thematig ôl-16 – ar bartneriaethau rhwng ysgolion a gyda cholegau ar gyfer myfyrwyr 16 i 19 oed, datblygiadau mewn arfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.

Cynhaliwyd ein cynhadledd staff flynyddol a oedd yn canolbwyntio ar les.

Parhaom i gyhoeddi adnoddau gwella a chydweithio â rhanddeiliaid i gefnogi addysg a hyfforddiant. Ar y cyd ag Edge Foundation, cyfrannom at Inspection across the UK: how the four nations intend to contribute to school improvement.

Parhaom â galwadau ymgysylltu – gwnaed 634 o alwadau ag ysgolion a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion). Gwnaethom alwadau ymgysylltu hefyd â'r holl ddarparwyr a phartneriaethau ôl-a16.

Anfonom lythyrau unigol i awdurdodau lleol a'r pedwar consortiwm rhanbarthol, gan nodi ein casgliadau ar sail ein hymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.

## 1.2 Dadansoddi perfformiad

## Sut y deliom â’r pandemig COVID-19

Er mwyn ymateb i’r sefyllfa â COVID-19, pennwyd y pedair blaenoriaeth ganlynol gennym, a pharhau i roi lle blaenllaw iddynt yn ein meddyliau:

- iechyd a diogelwch ein staff
- lles yr holl ddysgwyr a pharhad eu dysgu
- y cymorth roedd ei angen ar arweinwyr, athrawon a staff eraill y system addysg yng Nghymru
- cynnal gweithrediad strategol a gweithredol effeithiol ein sefydliad

Gwnaethom ddatblygu’n gyflym strategaeth hyblyg a oedd yn cynnwys y pum cam ymateb – **datrys, gwydnwch, ail-greu, dychwelyd a diwygio.**

### Cam 1: Datrys – mynd i’r afael â’r bygythiad uniongyrchol i iechyd

Trwy gydol mis Mawrth 2020, dechreuodd effaith COVID-19 ar y DU ddatblygu. Ataliom holl weithgarwch arolygu Estyn ac arolygiadau ar y cyd o leoliadau meithrin nas cynhelir gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o 16 Mawrth. Ar ôl hynny, caewyd ysgolion gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol ac i ddisgyblion bregus) o ddydd Llun, 23 Mawrth 2020.

Ar yr adeg hon, penderfynwyd symud ein holl staff i weithio gartref. Trwy gydol yr argyfwng, un o’r prif bryderon oedd sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein staff. Parhaodd holl gyfarfodydd a strwythurau llywodraethu sefydledig Estyn o bell drwy ddulliau digidol. Cynyddom fynychder ein cyfathrebiadau mewnol, sefydlu cyfarfodydd ychwanegol o’n uwch dîm rheoli, a gweithio’n agos â’n hundebau llafur (FDA a PCS). Hefyd, cynyddom nifer ein cyfarfodydd â chymdeithasau proffesiynol ac undebau llafur addysg, gan gynnwys ASCL, NAHT, NEU, NASUWT ac UCAC, yn ogystal â symud ein cydgyfarfod arferol ynghynt.

Sicrhaom fod yr holl staff yn gwybod beth roeddent i fod i’w wneud yn bersonol o ran eu rhaglen waith er mwyn sicrhau cwblhau pob adroddiad arolygu ac adroddiad thematig. Anogwyd arolygwyr i symud eu gwaith ymholiad ymchwil ymlaen, lle bo hynny’n bosibl (a amserlennwyd ar gyfer ein blwyddyn bontio, yn wreiddiol, gan ddechrau ym Medi 2020). Hefyd, galluogom i aelodau staff unigol wirfoddoli, er enghraifft i gynorthwyo ysgolion neu awdurdodau lleol, lle’r oeddent yn gallu gwneud hynny.

Roedd angen dull newydd ar gyfer cyfathrebu’n allanol. Diolchodd PAEM i staff addysg ledled Cymru am eu gwaith dan yr amgylchiadau anodd hyn drwy fideo. Esboniom yn glir ar ein gwefan a thrwy gyfathrebu’n uniongyrchol â darparwyr addysg a’n rhanddeiliaid eraill na fyddem yn hyrwyddo ein cyhoeddiadau, fel adroddiadau thematig neu adroddiadau arolygu darparwyr, yn ystod y cyfnod hwn, er y byddai’r rhain yn ymddangos ar ein gwefan o hyd. Gwnaethom hyn er mwyn lleihau faint o wybodaeth oedd gan arweinwyr a phobl eraill i’w phrosesu, er mwyn iddynt allu rhoi eu holl sylw i fynd i’r afael â’r argyfwng cyfredol.

## Cam 2: Gwydnwch – Cynorthwyo parhad dysgu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod yr ail gam hwn, ein prif flaenoriaeth oedd cefnogi rhaglen 'Parhad dysgu' Llywodraeth Cymru. Roedd y flaenoriaeth hon yn 'ddiben newydd' i'r sefydliad a chafodd ei gyfleu yn glir i'r staff.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am ein cymorth i ddarparu 'Parhad dysgu' i'r mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc nad oeddent yn yr ysgol erbyn hyn. Roedd hon yn rhaglen waith fawr, yn cynnwys pedair Egwyddor Sylfaen (ES) ac, i ddechrau, 12 'Canlyniad' (C). Yn ogystal ag Estyn a Llywodraeth Cymru, roedd y rhaglen yn cynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthau. Gofynnwyd i Estyn arwain ar ddau linyn (ES2 – cynhwysiant, a C7 – cymorth i arweinwyr ysgolion ar y ffordd orau i barhau â busnes yr ysgol), a chyfrannu at y rhan fwyaf o'r llinynnau eraill.

Sefydlom weithgorau mewnol, a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'n harolygwyr, rhai staff corfforaethol, a'r holl reolwyr, yn ogystal â strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd i reoli'r ffrydiau gwaith hyn. Gwnaed cynnydd cyflym â'r ffrydiau gwaith amrywiol, a chroesawyd cymorth Estyn ar gyfer pob un o'r llinynnau yn fawr.

Cyhoeddwyd cyngor i arweinwyr ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgolion (Canlyniad 7) ar 23 Ebrill 2020, ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar ein gwefan ni. Gall arweinwyr ysgolion ac UCDau ddefnyddio'r cyngor hwn i adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni eisoes, neu fel proc i'r cof neu i roi sicrwydd. Roedd y cyngor yn cynnwys Cefnogi parhad dysgu i blant a phobl ifanc, fel rhan o gefnogaeth i Gymru ddal ati i ddysgu.

Cydweithiom yn agos ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i lunio proses hunanwerthuso iddynt ystyried sut roeddent yn cynorthwyo dysgwyr bregus. Defnyddiom eu hadborth i nodi enghreifftiau o arfer gref a meysydd lle'r oedd angen mwy o gymorth neu arweiniad arnynt mewn adroddiad a rannwyd â CCAC a Llywodraeth Cymru.

Rhoesom gymorth i gydweithwyr gofal plant Llywodraeth Cymru a chysylltu â phartneriaid consortiwm Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM), sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r sefydliadau rhanddeiliaid allweddol sy'n cynorthwyo gofal plant yng Nghymru, yn ogystal â Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cynigiom ein cymorth i'r sector ôl-16 a'r sector annibynnol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun Cadernid ar gyfer y Sector Ôl-16' ym Mai 2020, a sefydlodd sawl grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi meysydd cyflawni allweddol y cynllun, a oedd yn cynnwys cydweithio'n agos ag Estyn ac ystod eang o randdeiliaid a sefydliadau ôl-16. Gofynnwyd i Estyn gadeirio'r grŵp a oedd yn datblygu arweiniad i gefnogi darpariaeth Safon Uwch mewn adrannau chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach. Cyfrannom hefyd at waith i ddatblygu arweiniad ar ddysgu cyfunol i'r sectorau ôl-16 a pharhaom i fod yn rhan o grŵp sy'n edrych ar gefnogi lles. Ochr yn ochr â'r cyngor parhaus hwn, cyhoeddom ystod o gameos i roi darlun o sut mae darparwyr ôl-16 wedi mynd i'r afael â'u gwaith yn ystod yr argyfwng.

## Cam 3: Ail-greu

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ei bod yn dymuno cynyddu gweithrediad ysgolion o 29 Mehefin 2020 ac i golegau addysg bellach ailagor i grwpiau penodol o ddysgwyr o 15 Mehefin 2020. Cynyddodd ysgolion eu gweithrediadau yn ystod tair wythnos olaf tymor yr haf yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ychwanegodd tri awdurdod lleol bedwaredd wythnos o addysg a pharhaodd un awdurdod lleol i ddarparu gofal yn unig oherwydd brigiad o achosion lleol.

Ar gais Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru, ymunodd PAEM â grŵp o'r enw 'Ymateb i COVID-19: Tystiolaeth ar gyfer gweithredu ysgolion – haen ganol' i ddatblygu egwyddorion ar gyfer penderfynu pryd a sut y dylai ysgolion gynyddu eu gweithrediadau.

Ar ôl cyfrannu at y rhaglen Parhad dysgu, cam nesaf ein gwaith oedd ailgysylltu â darparwyr a gwasanaethau unigol - strategaeth 'cadw mewn cysylltiad'. Dechreuom â'r rhai yr oedd angen y mwyaf o gymorth arnynt - darparwyr a oedd yn peri pryder. Gwnaethom hyn yn ofalus ac yn sensitif, ac roedd y dull hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai y cysylltom â nhw. Adeiladom ar y berthynas dda sydd gennym ag awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu i oedolion ar hyn o bryd drwy ein harolygwyr cyswllt. Yn ogystal, cysylltom yn rheolaidd â'r partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon newydd. Roedd 'cadw mewn cysylltiad' yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth y gallem ei choladu a'i hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Lluniom 'adroddiadau cryno' wedi'u seilio ar y galwadau ffôn ymgysylltu hyn, a anfonwyd at Lywodraeth Cymru ar 2 Mehefin 2020, 19 Mehefin 2020, 7 Gorffennaf 2020 ac 17 Gorffennaf 2020 i roi tystiolaeth wrthrychol, annibynnol o sut mae ysgolion wedi mynd i'r afael â heriau'r argyfwng cyfredol i gefnogi penderfyniadau polisi.

Roedd y gwaith 'cadw mewn cysylltiad' wedi'i seilio ar, ac yn elwa ar, yr hyfforddiant a'r gwaith peilot roeddem wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ar 'ymweliadau ymgysylltu'. Yn dilyn ein penderfyniad i atal arolygiadau ar 16 Mawrth 2020, ystyriom a ddylai ein hymweliadau ymgysylltu, yr oeddem yn bwriadu parhau i arbrofi â nhw yn ystod tymor yr haf 2020, barhau, a ph'un a fyddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol dan yr amgylchiadau hyn. Gwnaethom y penderfyniad i ddisodli'r ymweliadau ymgysylltu â galwadau ffôn. Newidiodd ffocws yr ymgysylltu hefyd, gyda ffocws erbyn hyn ar sut roedd ysgolion yn ymdopi, yn hytrach nag ar ddiwygio'r cwricwlwm, er mwyn i ni allu nodi heriau cyffredinol a rhoi cymorth i ysgolion.

Tua diwedd tymor yr haf, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn hwyluso grŵp o benaethiaid ac aelodau CCAC i nodi a chyhoeddi dogfen i egluro modelau gwahanol ar gyfer agor ysgolion yn llawn – Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau. Y ffocws oedd rhannu gwybodaeth/strategaethau ymarferol i helpu ysgolion ac UCDau er mwyn helpu i leihau cyswllt cymdeithasol rhwng grwpiau o ddisgyblion a staff, fel yr her fwyaf y mae ysgolion yn ei hwynebu o ran dychwelyd i weithredu'n llawn ym mis Medi.

Ers mis Mawrth 2020, mae ysgolion a darparwyr eraill yng Nghymru wedi agor neu gau nifer o weithiau i'r holl ddysgwyr. Mae hyn yn amlwg wedi effeithio ar ein gweithrediadau ni a'n Cynllun Blynyddol 2020-2021.

## Cam 4: Dychwelyd – ailgydio yn ein gwaith

Ym Medi 2020, agorodd ysgolion a darparwyr eraill i'r holl ddysgwyr, gyda rhai'n gweithredu dychwelyd fesul cyfnod gyda hyblygrwydd i ganolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth. Arhosodd dysgwyr ôl-16 gartref am yr wythnos ar ôl hanner tymor ym mis Tachwedd 2020 fel rhan o'r 'cyfnod atal byr' cenedlaethol.

Symudodd yr holl ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru i ddysgu o bell ar-lein ar gyfer wythnos olaf y tymor cyn y Nadolig, gyda llawer o ysgolion cynradd ar gau yr wythnos hon hefyd. Aeth Cymru i mewn i gyfnod clo newydd ar 20 Rhagfyr 2020. Parhaodd yr holl ddysgu ôl-16 ar-lein o ddechrau tymor y gwanwyn 2021, ac eithrio i'r dysgwyr mwyaf bregus a'r rheiny yr oedd angen iddynt fynychu ar gyfer arholiadau. Caeodd yr holl ysgolion ledled Cymru ar ddechrau'r tymor hwn hefyd a symud at ddysgu o bell ar-lein, ac eithrio darpariaeth ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr hanfodol.

Dychwelodd dysgwyr mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith i'r safle i gwblhau asesiadau er mwyn dangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol o 22 Chwefror 2020. Dechreuodd cyfnod o ddychwelyd yn raddol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ar 22 Chwefror 2021 gyda'r holl ddisgyblion ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a oedd yn weddill ym Mlynyddoedd cymhwyso 11 ac 13 yn gallu dychwelyd i ddysgu ar y safle ar 15 Mawrth 2021. Roedd blynyddoedd uwchradd eraill yn gallu dychwelyd ar gyfer sesiynau ailgydio. Ar 12 Ebrill, roedd yr holl ddysgwyr a oedd yn weddill yn gallu dychwelyd i ddysgu ar y safle.

Yn Hydref 2020 a Gwanwyn 2021, daeth ein galwadau ymgysylltu i'r amlwg. Gwnaethom alwadau â sampl eang o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig, ac UCDau. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles disgyblion, staff ac uwch arweinwyr. Gofynnom am eu barnau ynglŷn â'r cymorth lleol a rhanbarthol yr oeddent wedi'i gael ers dechrau'r tymor, a sut yr oedden nhw wedi cynorthwyo dysgwyr bregus a rhoi canllawiau ar waith i gefnogi dysgu disgyblion. Hefyd, dechreuom gynnal ymweliadau bugeiliol ag ysgolion a gynhelir mewn categori statudol.

Yn ogystal â chyhoeddi blogiau a chwestiynau cyffredin, parhaom i gyhoeddi adnoddau gwella a chydweithio â rhanddeiliaid i gefnogi addysg a hyfforddiant yn ystod y pandemig. Cyhoeddwyd Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau ym Medi 2020 a chyhoeddwyd adroddiadau bob tymor a oedd yn crynhoi canfyddiadau ein galwadau ffôn ymgysylltu. Ar y cyd ag Edge Foundation, cyfrannom at Inspection across the UK: how the four nations intend to contribute to school improvement. Parhaom i gyhoeddi adroddiadau thematig yn Hydref 2020 a Gwanwyn 2021, yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig
- Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19

- Partneriaethau Ôl-16
- Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr
- Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol

Yn Hydref 2020, ailddechreuom gynnal ein fforymau rhanddeiliaid a'n grŵp cyfeirio penaethiaid, a chryfhau ymhellach ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid drwy sefydlu grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr a fforwm athrawon, y cyfan wedi'u cynnal drwy gyfarfodydd ar-lein. Hefyd, ailddechreuon ein diweddariadau bob tymor ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig, a chynhaliom grwpiau ffocws gyda chydweithwyr ôl-16. Yn ystod y Gwanwyn 2021, fe wnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o'r gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn fforwm newydd.

Cynhaliom ein gweminar gyntaf erioed yn canolbwyntio ar Iaith Gymraeg Safon Uwch yn Hydref 2020, a chynhaliom y weminar gyntaf mewn cyfres ohonynt i helpu ysgolion baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yng Ngwanwyn 2021. Hefyd, yng Ngwanwyn 2021, cynhaliom ein cynhadledd flynyddol i'r holl staff 'Teimlo'n dda ac yn gweithredu'n dda', gan ganolbwyntio ar les a gwydnwch.

## Cam 5: Diwygio – Cynghori ar ddiwygio addysg yn y tymor hir a chyfrannu ato

Rydym wedi parhau i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ei rhaglen diwygio addysg, gan gynnwys p'un a fydd angen addasu'r rhaglen honno, a sut i wneud hynny, yn sgil y sefyllfa bresennol.

Yn ogystal â bod yn aelod o grŵp 'ymateb i COVID-19' Llywodraeth Cymru, ac ymgysylltu'n llawn â 'pharhad dysgu' a'r 'Cynllun Cadernid' ar gyfer sectorau ôl-16, rydym hefyd yn rhan o grŵp ymchwil Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2020-2021, mae cymorth Estyn ar gyfer diwygio addysg wedi cynnwys:

- canolbwyntio ar ddiwygio'r cwricwlwm mewn galwadau ac ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UCDau.
- rhannu'r canfyddiadau o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu trwy adroddiadau sector bob tymor
- cyfrannu at y broses gynllunio Dysgu Ymlaen [Learning Forward] a'r bwrdd cyflawni gweithredol
- cyhoeddi 'Y Daith i 2022' ar y cyd
- cyhoeddi adroddiad thematig ar gynnydd ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac ysgolion pob oed tuag at ddiwygio'r cwricwlwm a chynnal cyfres o weminarau i hyrwyddo negeseuon allweddol
- cyhoeddi adroddiadau thematig ôl-16 ar arfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr
- cyhoeddi blogiau i rannu canfyddiadau adroddiadau thematig yn ymwneud â diwygio a datblygu'r cwricwlwm
- cyfrannu at fforymau polisi
- darparu ystod eang o ddysgu proffesiynol i'r holl AEM i gefnogi a datblygu ein dulliau arolygu'r cwricwlwm ac asesu
- monitro camau a gymerwyd a chynllunio camau nesaf i'n cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm drwy ein bwrdd prosiect cwricwlwm
- cefnogi a mynychu grwpiau cwricwlwm ac asesu Llywodraeth Cymru yn rheolaidd

- cefnogi a mynychu grŵp llywio Cynllun Gwydnwch Llywodraeth Cymru a gweithgorau eraill

Byddwn yn parhau i ddefnyddio’r holl waith rydym yn ei wneud gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i annog ffocws cryf ar hunanwerthuso a myfyrio ar sut mae eu darpariaeth wedi addasu a newid, a sut bydd yn parhau i wneud hynny.

## Perfformiad yn erbyn amcanion strategol

# Amcan Strategol 1:

### Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae ein ‘cynllun pontio’ strategol â thri cham a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ein Cynllun Blynyddol 2019-2020 wedi’i seilio ar yr argymhellion i Estyn yn yr adroddiad annibynnol ‘Arolygiaeth Dysgu’. Fe wnaeth y cynllun pontio hwn, er bod angen ei addasu rhywfaint, yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i’r argyfwng cyfredol.

Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau yn ystod tymor yr haf na thymor yr hydref 2020. Cynhaliwyd un arolygiad o’r sector Cymraeg i Oedolion yng ngwanwyn 2021.

Cyhoeddwyd 63 o adroddiadau arolygu yn ystod haf 2020 yn dilyn arolygiadau a gynhaliwyd y tymor blaenorol. Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau arolygu yn Hydref 2020. Cyhoeddwyd un adroddiad arolygu newydd pellach yng Ngwanwyn 2021, ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

O ran ein mesurau perfformiad:

Nid oedd angen diwygio’n sylweddol yr un o’n 64 adrodd arolygu cyhoeddedig ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her, a chyhoeddwyd bob un ohonynt mewn modd amserol.



Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau yn ystod haf na hydref 2020. Cynhaliwyd un arolygiad yng ngwanwyn 2021, lle mynegodd y darparwr fodlonrwydd â’i brofiad o arolygu, a gyda dibynadwyedd ac annibyniaeth barn.



Ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion ffurfiol ynglŷn â’r broses arolygu.



## Ysgolion a gynhelir ac UCDau

Cam cyntaf y cynllun pontio oedd y byddai blwyddyn academaidd 2020-2021 yn 'flwyddyn bontio' i ysgolion a gynhelir ac UCDau. Roedd arolygiadau o sampl o ysgolion i'w disodli gan 'ymweliadau ymgysylltu' â phob ysgol. Prif ffocws yr ymweliadau undydd hyn oedd archwilio sut mae ysgolion yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a diwygio addysg yn ehangach.

Ni chafodd y cynllun i atal arolygiadau ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau yn rhannol am flwyddyn o Fedi 2020 ei newid. Defnyddiom 2020-2021 fel blwyddyn bontio, gan gynnal galwadau ffôn ymgysylltu a rhai ymweliadau lle'r oedd yn ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

Yn 2020-2021, gwnaethom alwadau ffôn ymgysylltu i sampl eang o ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, ac UCDau. Y prif ffocws oedd lles dysgwyr, staff a chymuned y darparwr. Dysgom hefyd am sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â'r heriau penodol o ran ymgysylltu â'u dysgwyr a'u cymunedau, a'u cynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn. Defnyddiom y wybodaeth hon i roi tystiolaeth a chyngor i Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol i ategu ei phenderfyniadau. Roedd nod y galwadau a'r ymweliadau ymgysylltu hyn yn canolbwyntio ar yr ymateb i effaith y pandemig.

| | Haf 2020[(1)] | Hydref 2020[(2)] | Gwanwyn 2021[(2)] | Cyfanswm 2020-2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion pob oed** | 3 | 22 | 0 | **25** |
| **Ysgolion arbennig a gynhelir** | 9 | 28 | 20 | **57** |
| **Cynradd** | 48 | 371 | 578 | **997** |
| **Uned cyfeirio disgyblion** | 5 | 19 | 14 | **38** |
| **Uwchradd** | 40 | 153 | 22 | **215** |
| **Cyfanswm** | **105** | **593** | **634** | **1332** |

(1) Roedd galwadau Haf 2020 yn alwadau peilot.
(2) Mae niferoedd ar gyfer yr hydref a'r gwanwyn yn cyfeirio at adroddiadau a gynhyrchwyd. Dylai'r holl ymweliadau/galwadau ymgysylltu arwain at un adroddiad. Galwyd rhai darparwyr fwy nag unwaith. Derbyniodd darparwyr mewn ffederasiwn un alwad.

Cafodd 1,332 o alwadau/ymweliadau ymgysylltu eu gwneud ag ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

### Lleoliadau meithrin nas cynhelir

Gwnaethom oedi ein rhaglen arolygu ar y cyd o leoliadau meithrin nas cynhelir ym Mawrth 2020 yn unol â'n trefniadau ar draws Estyn i ymateb i'r pandemig. Mae'r oedi hwn yn ein gweithgarwch arolygu craidd ar y cyd wedi parhau trwy gydol blwyddyn ariannol 2020-2021, er i ni ailddechrau agweddau ar weithgarwch dilynol ar y cyd mewn dau leoliad yr oedd angen gwelliant â ffocws arnynt yn ystod gwanwyn 2021.

Yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn, siaradom ag arweinwyr mewn dwy ran o dair o leoliadau meithrin nas cynhelir i ddysgu am eu profiadau yn ystod y pandemig. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles plant a staff, a sut yr oedd lleoliadau'n cynorthwyo dysgu ac yn ailsefydlu darpariaeth yn dilyn cyfnod clo. Cyhoeddom adroddiad yn nodi ein canfyddiadau ym Mawrth 2021.

### Ysgolion annibynnol

Ni chynhaliom ein hymweliadau monitro blynyddol yn 2020-2021. Fodd bynnag, rydym wedi ymgysylltu â'r holl ysgolion a cholegau annibynnol o leiaf unwaith, gan wneud 117 o alwadau ffôn ymgysylltu â darparwyr yn y sector hwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd ffocws y galwadau ar effaith y pandemig ar les dysgwyr, y staff a'r gymuned ysgol yn ehangach. Roedd yr adroddiadau a luniwyd gennym, a rannwyd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys cameos astudiaethau achos diddorol ar y modd y mae darparwyr wedi ymateb i heriau penodol ymgysylltu a chynorthwyo'u dysgwyr ac addasu'u darpariaeth i gynnwys dysgu o bell.

Rydym wedi cynnal ychydig o ymweliadau ag ysgolion i ymateb i Lywodraeth Cymru am geisiadau am newid sylweddol ac i ystyried ceisiadau am gofrestru. Hefyd, rydym wedi cynnal ymweliadau â ffocws ag ychydig o ysgolion i ymateb i bryderon diogelu.

### Sectorau ôl-16

Gwnaethom oedi ein trefniadau arolygu yn y sector ôl-16 o Fawrth 2020 i ymateb i'r pandemig. Yn ystod tymor yr haf 2020, gwnaeth ein harolygwyr cyswllt ôl-16 alwadau ymgysylltu o bell â'r holl ddarparwyr. Prif ffocws y galwadau hyn oedd lles dysgwyr, staff a chymuned y darparwr, a dysgom am eu dulliau gweithio yn ystod y cyfnod hwn. Defnyddiom y wybodaeth a gasglwyd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru yn hytrach na barnu neu adrodd ar ddarparwyr unigol, a chipiwyd cipolygon diddorol i'r modd yr oedd darparwyr a phartneriaethau'n cefnogi addysg a hyfforddiant mewn cameos ar ein gwefan.

Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn, ymgysylltom yn rheolaidd â'r holl ddarparwyr ôl-16, gan wneud galwadau o bell ag arweinwyr a rheolwyr. Roedd y galwadau'n canolbwyntio ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl a lles dysgwyr ac ar ddulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn nodi ein canfyddiadau o'r galwadau ymgysylltu yn nhymor yr hydref ym mis Rhagfyr 2020. Yn Ionawr 2021, cynhaliom grwpiau ffocws staff i ganfod sut mae staff mewn darparwyr ôl-16 wedi ymateb i'r symud i ddysgu o bell a dysgu cyfunol, a chyhoeddom ddau adroddiad thematig ym Mawrth 2021 ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac ar iechyd meddwl a lles dysgwyr.

## Addysg gychwynnol athrawon

Yn ystod tymor yr hydref, ymgysylltom a phartneriaethau addysg gychwynnol athrawon drwy ein galwadau arolygwyr cyswllt. Roedd y trafodaethau anffurfiol hyn yn gyfle i drafod sut oedd y partneriaethau yn addasu'u darpariaeth oherwydd y pandemig ac i nodi dulliau gweithio diddorol. Hefyd, cynhaliom ein fforwm rhanddeiliaid gyda ffocws arbennig ar ddysgu o bell. Yn nhymor y gwanwyn, parhaom â'n galwadau cyswllt, ond ymgymerom hefyd ag arbrofion rhithwir gyda'n harolygwyr cymheiriaid. Roedd hyn yn gyfle i brofi ein methodoleg arolygu a chasglu adborth o bartneriaethau addysg gychwynnol athrawon.

## Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Roedd ein ffocws yn nhymor yr hydref ar gymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i'w hysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a'u dysgwyr bregus, yn ystod cyfnod y pandemig. Yn sgil y gwaith hwn, anfonom lythyrau unigol i bob un o'r 22 awdurdod lleol a'r pedwar consortiwm rhanbarthol, yn nodi ein casgliadau ar sail ein hymgysylltiadau â swyddogion ac aelodau etholedig. Hefyd, defnyddiom y wybodaeth o'r galwadau ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, a barnau rhieni/gofalwyr, arweinwyr ysgol, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth a disgyblion drwy arolygon cenedlaethol i lywio'r gwaith hwn.

Cyhoeddom adroddiad thematig trosfwaol yn seiliedig ar yr holl ymgysylltiadau hyn yn Ionawr 2021. Roedd yr adroddiad 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19' yn cyfeirio Llywodraeth Cymru i weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Yn ystod tymor y gwanwyn, roedd ein gwaith gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio ar eu hymatebion i'r argymhellion o'r adroddiad thematig.

Cynhaliom gynadleddau gwella hefyd mewn tri awdurdod lleol y nodwyd eu bod yn destun pryder sylweddol yn eu harolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol.

Cyhoeddom y canllawiau canlynol yn ymwneud â phandemig COVID-19 yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o alwadau ymgysylltu, gan gynnwys cameos o arfer ddiddorol.

## Cyngor a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ymwneud â phandemig COVID-19 yn 2020-2021

| | |
|---|---|
| Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19 | Ebrill 2020 |
| Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD | Ebrill 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd | Mehefin 2020 |

| | |
|---|---|
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o UCDau | Mehefin 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion uwchradd | Mehefin 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion arbennig | Mehefin 2020 |
| Cameos a syniadau ar gyfer parhad busnes ysgol yn ystod Covid-19 | Gorffennaf 2020 |
| Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol | Gorffennaf 2020 |
| Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19 | Gorffennaf 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned | Gorffennaf 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach | Gorffennaf 2020 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith | Gorffennaf 2020 |
| Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau | Medi 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector cynradd – hydref 2020 | Rhagfyr 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector uwchradd – hydref 2020 | Rhagfyr 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020 | Rhagfyr 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) – hydref 2020 | Rhagfyr 2020 |
| Gwaith ymgysylltu:  Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020 | Rhagfyr 2020 |
| Adroddiad interim y sector uwchradd – Ionawr a Chwefror 2021 | Mawrth 2021 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Gwanwyn 2021 | Mawrth 2021 |

| | |
|---|---|
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas cynhelir – Tymor y Gwanwyn 2021 | Mawrth 2021 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar ysgolion arbennig a gynhelir ac UCD – Tymor y Gwanwyn 2021 | Mawrth 2021 |
| Gwaith Ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor y Gwanwyn 2021 | Mawrth 2021 |

Cyhoeddom y postiadau blog cysylltiedig canlynol hefyd.

| | |
|---|---|
| Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol | Mehefin 2020 |
| Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) - sut gall ysgolion gefnogi plant a phobl ifanc sy’n byw mewn amgylchiadau anodd? | Medi 2020 |
| A yw eich ysgol yn un sy’n rhoi teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith? | Medi 2020 |
| Gan fod dysgwyr bellach wedi dychwelyd i ysgolion a cholegau, pa ran rydym ni wedi’i chwarae a sut bydd ein rôl yn newid yn y dyfodol? | Medi 2020 |
| Beth gall ysgolion ac UCDau ei wneud i gryfhau gwydnwch disgyblion? | Medi 2020 |
| Gweithio gyda’n gilydd i gefnogi addysgu a dysgu yn ystod argyfwng COVID-19 | Medi 2020 |

Ac, rydym wedi cyfrannu at y cyhoeddiadau canlynol.

| | |
|---|---|
| Mewn cydweithrediad â’r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GWE Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol | Mehefin 2020 |
| Mewn cydweithrediad â’r Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GWE Modelau Dysgu Cyfunol | |
| Ar y cyd ag Edge Foundation, cyfrannom at Inspection across the UK: how the four nations intend to contribute to school improvement | Mawrth 2021 |

Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau thematig hefyd yn ymwneud â phandemig COVID-19, ac maent wedi’u rhestru o dan **amcan strategol 2**.

Yma, ceir detholiad o sylwadau rydym wedi'u derbyn ynglŷn â'n hadroddiadau, ymweliadau, ac ymateb Estyn i'r argyfwng yn dilyn ein gwaith y llynedd:

**Nid wyf wedi clywed unrhyw beth heblaw canmoliaeth i Estyn yn ystod y cyfnod hwn, a pha mor werthfawr oedd eich ymgysylltiad eich arolygwyr mewn cyfnod mor ansicr.**

Cynrychiolydd Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru

**Diolch am y cyngor ac arweiniad cyfunol heddiw ar ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, dogfen werthfawr a help buddiol.**

**(Adborth ynglŷn â'r adroddiad 'Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau)**

Cadeirydd Llywodraethwyr mewn Ysgol

**Roedd yn arbennig gallu dangos yr ysgol i chi a siarad am beth rydym wedi'i ddatblygu dros y misoedd diwethaf.**

**Rwyf wedi diolch I'r holl staff fel yr addewais. Roedd pobl yn canmol eich agwedd gyda nhw a'r ymgysylltiad proffesiynol. Mae'n golygu llawer I deimlo bod gwir ddiddordeb gan rywun ynddoch chi, a'I fod yn neilltuo'r amser i gael sgwrs sydyn. Gwerthfawrogi'n fawr. Diolch.**

Pennaeth Ysgol Gynradd

Trwy gydol 2020-2021, parhaom i ymgysylltu â darparwyr y canfuwyd bod angen gweithgarwch dilynol yn eu harolygiad craidd. Oherwydd y pandemig ac atal gweithgarwch arolygu ym Mawrth 2020, ni wnaeth arolygwyr ymweld â darparwyr yn y categori gweithgarwch dilynol i fonitro'u cynnydd yn ffurfiol.

Mae arolygwyr wedi cefnogi darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol statudol trwy gynadledda rhithwir. Er enghraifft, darparodd AEM gyfleoedd i'r saith o ddarparwyr y nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt cyn y pandemig i weithio gydag arolygwyr er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu ôl-arolygiad addas. Fe wnaeth arweinwyr yr ysgol a swyddogion awdurdod lleol drafod y cynllun mewn

cyfarfod rhithwir gydag AEM.  Ar gyfer dwy ysgol arall, galwodd arolygwyr gynadleddau gwella i gryfhau'r cynlluniau gweithredu a gytunwyd ac i roi ystyriaeth briodol i'r sefyllfa newidiol.

Dros y flwyddyn, mae AEM wedi cadw cyswllt rhithwir bob hanner tymor gyda'r 22 o ysgolion a gynhelir ac UCDau y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt, mewn rhinwedd bugeiliol.  Mewn ychydig o achosion, lle mae amodau lleol wedi caniatáu ymwelwyr ar y safle, mae'r AEM wedi gwneud ymweliad bugeiliol byr â'r ysgol neu'r UCD.  Fe wnaethant ymweld â dosbarthiadau lle'r oedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny, a threfnu cyfarfodydd gydag arweinwyr, staff a disgyblion, gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith.  Yn ogystal, mae AEM wedi cynnal ymgysylltiad rhithwir bob tymor mewn rhinwedd bugeiliol gyda phob un o'r 17 o ysgolion yn y categori angen gwelliant sylweddol.

Yn ystod tymor yr hydref 2020, cynhaliodd arolygwyr 68 o alwadau neu ymweliadau ymgysylltu â darparwyr a gynhelir a oedd mewn categori gweithgarwch dilynol.  Yn ystod tymor y gwanwyn 2021, gwnaethant 74 o alwadau neu ymweliadau bugeiliol.

**Adolygu gan Estyn ac adolygu cynnydd**

Oherwydd y pandemig, ni fu modd i ni ymweld â darparwyr a oedd yn y categori adolygu gan Estyn neu adolygu cynnydd i fonitro'u cynnydd.  Ar ôl ymgynghori ag awdurdodau lleol, yn hydref 2020 cynhaliom beilot o drefniant panel rhithwir ar gyfer AEM a swyddogion awdurdod lleol i adolygu cynnydd y darparwyr hyn.  Tynnom dri darparwr o'r categori adolygu gan Estyn (dwy ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd) yn dilyn trafodaeth a chytundeb rhwng AEM a'r awdurdod lleol.  Yng ngwanwyn 2021, cynhaliom adolygiadau rhithwir pellach mewn 18 o awdurdodau lleol, gan arwain at gytuno i dynnu 37 o ddarparwyr o'r categori adolygu gan Estyn (25 o ysgolion cynradd, 11 o ysgolion uwchradd ac un uned cyfeirio disgyblion).  Adolygom ychydig o ddarparwyr ar draws yr awdurdodau gwahanol lle'r oedd y panel wedi cytuno nad oedd yr ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adolygiad craidd.  Mewn chwe awdurdod gwahanol, penderfynodd y paneli adolygu gadw chwe ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd yn y categori monitro am gyfnod amser ychwanegol.

Cynhaliom adolygiad panel tebyg gydag awdurdodau lleol, i adolygu cynnydd lleoliadau meithrin nas cynhelir yn y categori adolygu cynnydd.  Yng ngwanwyn 2021, cafodd 14 o leoliadau meithrin nas cynhelir eu tynnu o'r categori adolygu cynnydd, a thynnwyd dau leoliad meithrin nas cynhelir o'r categori gwelliant â ffocws.

Oherwydd y pandemig, ni fu modd i ni ymweld â darparwyr na chynnal adolygiad desg o'r pedwar darparwr ôl-16 a oedd yn y categori adolygu gan Estyn.  Rydym wedi ymgysylltu â'r holl ddarparwyr ôl-16 ar draws y flwyddyn drwy alwadau ymgysylltu a thrwy weithgarwch thematig o bell.

Mae’r tabl isod yn nodi nifer y darparwyr yn mynd i mewn ac yn dod allan o gategori gweithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn.

| Nifer y darparwyr yn mynd i mewn ac yn dod allan o gategori gweithgarwch dilynol, 2020-21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel gweithgarwch dilynol** | **Mewn categori ar ddechrau’r flwyddyn** | **Wedi’u rhoi mewn categori o arolygiad craidd yn ystod y flwyddyn** | **Wedi israddio’r lefel gweithgarwch dilynol** | **Wedi’u tynnu o gategori yn ystod y flwyddyn** | **Mewn categori ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Statudol ac uwch (mesurau arbennig / gwelliant sylweddol), gwelliant â ffocws ac ailarolygu | 45 | 0[2] | 0 | 2 | 43 |
| Adolygu gan Estyn / monitro gan Estyn / adolygu cynnydd / Awdurdod lleol yn achosi pryder difrifol [1] | 110 | 0[2] | 0 | 54 | 56 |

[1] Mae ond yn cynnwys darparwyr yn y categori adolygu cynnydd lle’r oedd rhywfaint o gyfranogiad gan Estyn yn y gweithgarwch dilynol.
[2] Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau craidd yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021.

Tynnwyd 56 o ddarparwyr o gategorïau gweithgarwch dilynol yn ystod y flwyddyn.

## Cydweithio

Mae ein cydweithio dros y cyfnod adrodd wedi cynnwys y canlynol:

- Parhaom i gysylltu'n agos ag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth a rhannu dulliau yn ystod y pandemig.
- Gwnaethom ddau ymweliad â ffocws ar y cyd ag ysgolion annibynnol a oedd yn peri pryder, gydag AGC.
- Cydweithiom ag AGC ar ddau adolygiad gwelliant â ffocws o feithrinfeydd nas cynhelir, a chynhaliom un cyfarfod panel ar y cyd ag AGC i adolygu cynnydd 18 o leoliadau nas cynhelir.
- Cynhaliom gyfarfodydd amlasiantaeth ar gyfer 12 o ysgolion uwchradd yn y categori mesurau arbennig.
- Gweithiom ar y cyd ag awdurdodau lleol, gydag 19 o'r 22 awdurdod lleol yn cael Adolygiadau gan Banel Adolygu Cynnydd Estyn ar gyfer ysgolion a gynhelir, 10 awdurdod lleol ar gyfer Paneli Adolygu Cynnydd y sector Nas Cynhelir, a dau awdurdod lleol o ran gwelliant â ffocws.
- Ymunom â dau arolygiad o garchardai a arweiniwyd gan AEM Carchardai.

## Arolygu a dilysu

Er i ni oedi ein cynlluniau bwriadedig i beilota ein trefniadau arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac UCDau yn ystod haf 2020, parhaom i ddatblygu ein dulliau arolygu. Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltom ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys ein grŵp cyfeirio penaethiaid, i wneud yn siŵr bod ein trefniadau arolygu yn ystyried effaith y pandemig yn ogystal â diwygiadau i'r cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol.

# Amcan Strategol 2:

## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Yn Rhagfyr 2020, cyhoeddom Adroddiad Blynyddol PAEM 2019-2020 ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad ar y we ac yn hygyrch fel dogfen pdf y gellir ei darllen gan ddarllenwyr sgrin ar-lein. Mae'n cynnwys adran adroddiadau sector, sy'n rhoi adolygiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae adran sectorau yr Adroddiad yn seiliedig ar weithgarwch arolygu a gweithgarwch arall rhwng Medi 2019 a Mawrth 2020.

Gyda dyfodiad pandemig COVID-19, penderfynom gynnwys adran thematig ar yr effaith ar y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru o Fawrth i Awst 2020. Hefyd, cyhoeddom ein hadroddiadau ymgysylltu yn cwmpasu tymor yr hydref ar yr un diwrnod â'r Adroddiad Blynyddol i ddarparu darlun cwbl ddiweddar o addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol PAEM ym mis Rhagfyr 2020, yn unol â'r dyddiad targed yn ein Cynllun Blynyddol 2020-2021.



Heb fod yn syndod, fe wnaeth gwerthusiad o gyrhaeddiad digidol yr Adroddiad Blynyddol ddangos gostyngiad mewn ymgysylltiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu amgylchiadau anodd ei gyhoeddi. Fodd bynnag, parhawyd i roi sylw sylweddol i'r adroddiad yn y cyfryngau.

Yn ystod 2020-2021, cyhoeddom 14 adroddiad thematig ar ystod o destunau i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Roedd nifer o'r adroddiadau hyn yn ymwneud â phandemig COVID-19. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys cyfanswm o 89 o argymhellion, gyda 29 o argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Cafodd pob un o'r 13 o argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru mewn adroddiadau thematig a gyhoeddwyd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2020 eu derbyn. Ers 1 Ionawr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei hymagwedd ac wedi gwneud sylwadau ar yr 16 o argymhellion a oedd yn weddill, yn hytrach na'u derbyn neu'u gwrthod yn ffurfiol.

Cafodd yr holl argymhellion ar gyfer gwella eu derbyn ar gyfer eu gweithredu / rhoi sylwadau arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

**Adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn 2020-2021**

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf | Mehefin 2020 |
| Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion | Gorffennaf 2020 |
| Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol | Gorffennaf 2020 |
| Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19 | Gorffennaf 2020 |
| Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch | Awst 2020 |
| Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant | Hydref 2020 |
| Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid | Hydref 2020 |
| Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos o ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig | Tachwedd 2020 |
| Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19 | Ionawr 2021 |
| Partneriaethau ôl-16 | Ionawr 2021 |
| Caffael y Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr | Mawrth 2021 |
| Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd | Mawrth 2021 |
| Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr | Mawrth 2021 |
| Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol | Mawrth 2021 |

Yn ystod 2020-2021, parhaom i ddarparu cyngor a chymorth i Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'r Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn ôl yr angen, gan gynnwys cymryd rhan mewn pwyllgorau, gweithgorau a grwpiau cynghori.

Roedd hyn yn cynnwys cyfranogi'n helaeth mewn cefnogi a darparu arweiniad ar gyfer Cynllun Parhad Dysgu a Chynllun Cadernid Ôl-16 Llywodraeth Cymru i ymateb i bandemig COVID-19.  O dan amcan strategol 1, rydym wedi rhestru **canllawiau**

**ychwanegol** a gyhoeddwyd gennym mewn perthynas â phandemig COVID-19 yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021.

Trwy gydol y flwyddyn, mynychodd uwch reolwyr ac AEM wrandawiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

- 17 Medi 2020 – Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)
- 14 Ionawr 2021 – Adroddiad Blynyddol PAEM
- Medi 2020 – Sesiwn dystiolaeth y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Lafaredd – 'How do other UK nations improve spoken language skills in schools?'

Rhoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor canlynol:

- CYPE – Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Defnyddiom ein sylfaen dystiolaeth helaeth hefyd i ymateb i 37 ymgynghoriad ar ystod eang o faterion addysgol, gan gynnwys y canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant nad oes ganddynt alluedd meddyliol
- Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021
- Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

Gellir gweld tudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yma.

Mae ymatebion ymgynghori i sefydliadau eraill yn cynnwys:

- Cyngor y Gweithlu Addysg: gorchmynion atal dros dro interim
- Rhaglen Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd - 2021-2023
- Categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Gallwch weld ein holl ymatebion ymgynghori ar ein gwefan:

## Ymatebion i gynigion ar ad-drefnu ysgolion[1]

| 2018-2019 | 2019-2020 | 2020-2021 |
|---|---|---|
| 43 | 33 | 30* |

* derbyniwyd ac ymatebwyd iddynt rhwng Medi 2020 a diwedd Mawrth 2021

Yn 2020-2021, ymatebom i 30 o gynigion i ad-drefnu ysgolion, a daethom i'r casgliad fod pob un ohonynt yn debygol o gynnal safonau addysgol o leiaf, ac mewn llawer o achosion, gwella'r ddarpariaeth addysgol bresennol.  Mewn un achos, gwnaethom sylw nad oedd digon o eglurder wedi'i ddarparu ar y cynnig.

## Cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar feysydd eraill

Yn 2020-2021, darparom gyngor a chymorth yn y meysydd eraill canlynol:

- ymateb a bodloni'r holl geisiadau am gyngor o ran ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol;
- 5 ymweliad cofrestru cyntaf ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol y brif ffrwd
- 16 o ymweliadau newid yn sylweddol
- 4 ymweliad â ffocws yn ddirybudd
- cyngor ar gais am anrhydedd

[1] Sylwer: gwybodaeth a gyfrifwyd o'r 'dyddiad derbyn cynigion' yng nghofnod ad-drefnu'r ysgol

**Digwyddiadau eraill a fynychwyd gan arolygwyr**

Yn ogystal, mynychom ddeg o ddigwyddiadau rhithwir yn ystod y flwyddyn.

| Dyddiad y digwyddiad | Trefnydd y digwyddiad | Manylion y digwyddiad |
|---|---|---|
| 01 Mehefin 2020 | GCA | Cyfarfod Penaethiaid Uwchradd – rhithwir |
| 04 Mehefin 2020 | GCA | Cyfarfod Penaethiaid Uwchradd – rhithwir |
| 11, 15 a 17 Mehefin 2020 | GCA | Cyfarfod Penaethiaid Cynradd – rhithwir |
| 17 Mehefin 2020 | | Gweminar ynghylch: Dod i drafod diben, blaenoriaethau a chyfnodau ymatebion Arolygiaeth Addysg i'r argyfwng presennol |
| 20 Hydref 2020 | Iechyd Cyhoeddus Cymru | i fod yn rhan o banel arbenigwyr ar gyfer sesiwn Holi ac Ateb |
| 11 Rhagfyr 2020 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Ymagwedd Ysgol Gyfan Gwent at y Prosiect Lles Emosiynol |
| 22 Ionawr 2021 | CYDAG | Cyfrannu a rhoi diweddariad ar gylch gwaith blynyddol Estyn a'r gwaith ar yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol |
| 4 Chwefror 2021 | Fforwm Polisi Cymru | Cyflwyno prif anerchiad i Brif Seminar Fforwm Polisi Cymru: Rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yng Nghymru |
| 11 Mawrth 2021 | British Council | Digwyddiad byw yn canolbwyntio ar ansawdd addysgu a dysgu fel mesur a chyfrwng effeithiolrwydd Systemau Sgiliau |
| 25 Mawrth 2021 | Fforwm Addysg San Steffan | Prif Seminar: Fframwaith arolygu newydd Ofsted - cynnydd o ran gweithredu, addasu i effaith COVID-19, dysgu o bell, a rheoleiddio darparwyr prentisiaethau a cholegau AB |

# Amcan Strategol 3:

## Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae gwybodaeth a gesglir o waith arolygu ac ymgysylltu, a gwaith arolygon thematig yn helpu llywio ein gwaith meithrin gallu, sy'n cynnwys cynadleddau arfer effeithiol, digwyddiadau rhanddeiliaid, a chyhoeddi adnoddau gwella ar ein gwefan. Mae adnoddau gwella yn cynnwys: adroddiadau thematig, arfer effeithiol a chymorth i Gymru ddal ati i ddysgu. Yn ystod ein gweithgarwch ymgysylltu gydag ysgolion a darparwyr eraill trwy gydol 2020-2021, tynnom sylw at enghreifftiau o arfer ddiddorol sy'n deilwng i'w rhannu. Cafodd yr enghreifftiau hyn eu crynhoi yn astudiaethau achos o arfer effeithiol. I ddechrau, cawsant eu cyhoeddi ar ein gwefan, gan gynorthwyo ysgolion gyda dysgu o bell a heriau niferus y pandemig. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, cafodd cameos ychwanegol (crynodebau byr o arfer nodedig), a amlygwyd yn ystod gweithgarwch ymgysylltu, eu cyhoeddi ar ein gwefan neu'u cynnwys yn ein hadroddiadau, ac fe'u cynlluniwyd i ysgogi meddwl a thrafod ymhlith darparwyr.

Gall gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid eraill weld argymhellion ein hadroddiadau thematig, ein harweiniad, gan gynnwys cymorth i Gymru ddal ati i ddysgu, ac astudiaethau achos trwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo ein hadnoddau trwy gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan gan ddefnyddio graffeg a fideos i hybu ymgysylltu a denu sylw penaethiaid ac athrawon prysur a phobl eraill sy'n gweithio ym maes addysg neu hyfforddiant, neu'n ei gefnogi.

Un o'n hadroddiadau thematig mwyaf poblogaidd yn 2020-2021 oedd 'Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru - astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig'. Mae'n cynorthwyo ysgolion sy'n dechrau ailystyried eu cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gan amlygu ffyrdd iddynt allu adeiladu ar gryfderau a dileu rhwystrau. Fe wnaethom lunio blog a chyfres o weminarau i gyd-fynd â'r adroddiad hwn, ac maent yn parhau i mewn i'r hydref 2021.

Cafodd 21 o astudiaethau achos o arfer effeithiol eu cyhoeddi yn ystod 2020-2021, gydag 87,741 wedi edrych ar y tudalennau Saesneg, a 9,299 wedi edrych ar y tudalennau Cymraeg ar gyfer y rhan hon o'r wefan yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae 92 o gameos (crynodebau byr) wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ar hyn o bryd (ym Mai 2021) gan golegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, gyda 5,692 wedi edrych ar y tudalennau Saesneg a 1,494 wedi edrych ar y tudalennau Cymraeg ar gyfer y rhan hon o'r wefan yn ystod y flwyddyn ariannol

O ganlyniad i'r pandemig, symudom at ddigwyddiadau ar-lein yn 2020-2021.

Cynhaliom 40 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gyda rhyw 780 o gynrychiolwyr yn mynychu.  32 o ddigwyddiadau rhanddeiliaid (18 yn 2019-2020). Ac 8 o weithgareddau hyfforddi ar gyfer gweithwyr addysg a hyfforddiant proffesiynol (29 yn 2019-2020).

Rydym wedi bod drwy broses ddysgu wrth i ni ddatblygu ein dulliau, ac rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gawn o ffurflenni gwerthuso; defnyddiwn hyn i wella'n barhaus.  Gwnaethom goladu adborth o'n digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau arfer orau a gwblhawyd gan gynrychiolwyr ers mis Hydref 2020, a derbyniom lawer o adborth cadarnhaol.

Dyma rai o'r sylwadau:

**"Roedd wedi'i drefnu'n dda iawn a chafodd pawb gyfle i gyfranogi yn y fforwm."**

**"Diolch am roi diweddariadau i ni o ran datblygiadau yn y sector ac mae'n hyfryd cadw cysylltiad â chi i gyd."**

**"Roedd y sesiwn yn agored iawn. Roedd yn ddiddorol iawn clywed safbwyntiau gwahanol ar sut mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio ar y sector."**

**"Diolch, roedd yn teimlo fel hwb i'r 'lles' yn ogystal â chyfarwyddyd pellach."**

Nododd 92% o gynrychiolwyr eu bod yn fodlon wrth werthuso digwyddiadau a gynhaliwyd gennym (100% ar gyfer digwyddiadau hyfforddi yn unig)



## Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol (NEIR)

Yn ystod 2020-2021, parhaom i gefnogi datblygu'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol er i'r peilotau mewn ysgolion gael eu hoedi yn ystod y pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithiom gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r tasgau canlynol:

- Cysoni'r platfform digidol â phlatfformau eraill Llywodraeth Cymru fel yr adnodd taith dysgu proffesiynol, er enghraifft drwy strwythuro'r ffordd y mae'r platfform yn gweithio yn yr un ffordd ag adnoddau eraill. Mae hyn i sicrhau bod yr adnodd yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn hygyrch i holl ddefnyddwyr HwB.
- Mapio'r cysoni ag adnoddau eraill, fel ysgolion, fel sefydliadau dysgu a'r daith dysgu proffesiynol.
- Mireinio ac ad-drefnu sbardunau ar gyfer gwahanol agweddau'r adnodd, sef arweinyddiaeth, addysgu'r cwricwlwm a lles.
- Datblygu sbardunau ychwanegol i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i werthuso a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu cyfunol.
- Datblygu adnoddau rhyngweithiol, fel cwisiau, i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i ddefnyddio'r adnodd yn effeithiol gyda'u staff a llywodraethwyr.
- Datblygu set o gwestiynau cyffredin i sicrhau bod negeseuon ynglŷn â beth yw'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol, a'r hyn nad ydyw, yn glir a bod chwedlau mewn perthynas â gwerthuso a gwella wedi'u chwalu.
- Datblygu'r adnodd yn ddwyieithog.
- Cryfhau'r cynnwys gwella o fewn yr adnodd.
- Sefydlu meini prawf drafft ar gyfer nodi a sicrhau ansawdd adnoddau i boblogi'r llwyfan digidol.

### Arolygwyr cymheiriaid

Mae arolygwyr cymheiriaid (ymarferwyr proffesiynol sydd â rôl reoli mewn ysgol neu ddarparwr ) yn rhan annatod o'n prosesau arolygu mewn cyfnod mwy arferol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw arolygwyr cymheiriaid gan na chynhaliwyd unrhyw arolygiadau yn nhymor yr haf na'r hydref 2020. Fodd bynnag, defnyddiom ddau arolygydd cymheiriaid ar gyfer yr arbrawf Addysg Gychwynnol Athrawon yn Chwefror 2021.

### Arolygwyr cyswllt

Galluogodd ein system o arolygwyr cyswllt ar gyfer addysg bellach, dysgu yn y gwaith, addysg oedolion yn y gymuned, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ni gynnal perthnasoedd gweithio adeiladol gyda darparwyr a rhannu arfer effeithiol. Buont yn ymgysylltu ag uwch arweinwyr i'n galluogi i adeiladu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda, a beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliadau priodol.

Yn ystod tymor yr hydref, canolbwyntiodd ein gwaith cyswllt mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar eu gwaith yn cefnogi'u cymunedau dysgu drwy'r pandemig. Nodom eu dulliau mewn llythyrau unigol a anfonom i bob awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol yn Ionawr 2021. Hefyd, cyfrannodd y gwaith at adroddiad thematig trosfwaol, a gyhoeddwyd hefyd ar ddechrau Ionawr.

## Dathlu arfer ragorol

Eleni, er na fu modd i ni ddathlu rhagoriaeth darparwyr drwy noson wobrwyo arbennig, fe wnaethom gydnabod eu hymdrechion serch hynny. Tynnwyd sylw at eu llwyddiant trwy dystysgrif wedi'i fframio a llythyr gan ein Prif Arolygydd, yn ogystal â sôn amdanynt ar ein gwefan.

## Ein gwefan

Un o'n blaenoriaethau yw gwneud yn siŵr bod yn rhanddeiliaid – o arweinwyr addysg ac athrawon i rieni/gofalwyr – yn gallu cael gwybod am ein gwaith. Gan fanteisio ar uwchraddiad angenrheidiol i'n gwefan, fe wnaethom ei hail-lansio gyda dyluniad a gosodiad newydd, a defnyddioldeb gwell. Mae'n haws o lawer erbyn hyn i chwilio a chanfod ein hadnoddau gwella: adroddiadau thematig, arfer effeithiol a'r holl gymorth a gyhoeddwyd gennym yn ystod y pandemig i Gymru ddal ati i ddysgu. Mae'n haws hefyd dod o hyd i wybodaeth am ysgolion unigol a darparwyr eraill. Rydym bob amser yn croesawu adborth ar ein gwefan wrth i ni barhau i'w gwella.

# 1.3 Sut y cyflawnwn ein gwaith:

## Adeiladu sefydliad gwell a byw'n unol â'r gwerthoedd

**Lle gwych i weithio**

Trwy gydol 2020-2021, cynhaliom ein ffocws ar fod yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda ac yn effeithlon sy'n gwerthfawrogi ei bobl, yn cael ei weld yn lle gwych i weithio ac yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Parhaodd ein Grŵp Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu i nodi, monitro a gweithredu camau gwella yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, lles ac ymgysylltu.

Mae ein pryder am iechyd a lles ein pobl wedi bod yn faes ffocws â blaenoriaeth. Adolygom ein polisïau iechyd a diogelwch, cyhoeddi canllawiau ychwanegol a darparu hyfforddiant ychwanegol, er enghraifft mewn perthynas ag asesiadau risg gweithio gartref, er mwyn cefnogi staff drwy'r pandemig.

Ym Medi 2020, ymrwymom i'r Adduned Amser i Newid. Mae'r Adduned yn sail i'n hymrwymiad i gydnabod pwysigrwydd gofalu am ein hiechyd meddwl ein hunain ac iechyd meddwl ein cydweithwyr. Rydym wedi ymrwymo i weithredu i ymgorffori materion ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ym mhopeth a wnawn, a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd i gefnogi'r adduned hon. Mae ein Hyrwyddwyr Amser i Newid wedi sefydlu sesiynau dal i fyny gyda choffi bob mis yn dilyn llwyddiant y sesiynau 'Amser i siarad' yn Chwefror 2021.

Yn ystod 2020-2021, sefydlom weithgor i ddatblygu ein 'ffyrdd o weithio yn y dyfodol'. Fe wnaeth y grŵp hwn, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth undebau llafur, ddefnyddio adborth o arolygon yr holl staff i'n helpu i ddeall sut yr oedd pobl yn teimlo, a'u profiad o weithio drwy'r pandemig COVID-19, a myfyrio ar sut y gallai hyn effeithio ar ein ffyrdd o weithio a'n diwylliant yn y dyfodol.

Hefyd, cymeron ran yn Arolwg Pwls y Gwasanaeth Sifil ym Mai 2020. O gymharu ag ymateb y gwasanaeth sifil yn gyffredinol, cawsom ymatebion ffafriol yn ymwneud ag effeithiolrwydd y trefniadau gweithio, ac roedd y rhan fwyaf o'n pobl yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth dda yn ystod pandemig COVID-19. Fe wnaethom ddilyn hyn gydag arolwg i edrych ar newidiadau posibl i'r ffordd rydym yn gweithio ac effaith pandemig COVID-19. Rhoddodd y canlyniadau gipolwg i ni i'r canlynol:

- y wybodaeth a'r cymorth y byddent yn hoffi'u derbyn wrth i fesurau'r cyfnod clo lacio
- newidiadau cadarnhaol y byddai pobl yn hoffi'u gweld yn parhau yn y tymor hir

Mae'r cipolygon hyn wedi bwydo i'r gwaith sy'n cael ei ddwyn ymlaen gan y grŵp.

Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020:

Sgôr ymgysylltiad staff:
77% (cyfartaledd y gwasanaeth sifil oedd 66%)

Pumed lefel ymgysylltiad uchaf o'r 106 sefydliad a lenwodd yr arolwg



Mae'r cynllun gweithredu Ymgysylltu (Arolwg Pobl) wedi'i ddatblygu gan y Grŵp Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu ac mae camau gweithredu'n mynd rhagddynt.

Y trosiant am y flwyddyn hyd yma yw 6.6% (o gymharu â 7% yn 2019-2020)

Gadawodd 8 yn ystod y cyfnod: 6 arolygydd a 2 aelod o staff y gwasanaethau corfforaethol

Yn ystod 2020-2021, cynhaliom ein perthynas gynhyrchiol a phroffesiynol gyda'r undebau hefyd. Cynyddom fynychder cyfarfodydd a chydweithio ar bolisïau allweddol ac asesiadau risg, a chanllawiau ar ddefnyddio gofod swyddfa a chynnal ymweliadau â darparwyr yn ddiogel. Fe wnaeth undeb FDA noddi darparu cynnwys ar gyfer ein cynhadledd staff ar les, a gynhaliwyd yn rhithwir yn Ionawr 2021.

**Cryfhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn gyffredinol**

Cyhoeddwyd Strategaeth Interim Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ym Mai 2020 ac yng ngolau'r dirwedd sy'n newid yn gyflym, cafodd ei diweddaru ym Mehefin 2021.

Roedd y gweithgareddau a'r digwyddiadau a nodir isod yn cwmpasu'r sectorau canlynol:

- Y Sector Nas Cynhelir
- Ysgolion pob oed
- Colegau arbennig annibynnol, Colegau prif ffrwd annibynnol, Colegau arbenigol annibynnol
- Addysg Gychwynnol Athrawon
- Ysgolion Ffederal
- UCD
- Cynradd
- Uwchradd
- Ôl-16

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn ystod 2020-2021:

**Cyfarfodydd rhanddeiliaid**

Cynhaliom gyfarfodydd mwy cyson gydag ystod o randdeiliaid er mwyn cadw cyswllt â'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol a chael adborth i lywio ein dulliau gweithredu yn ystod y pandemig:

- Llywodraeth Cymru
- undebau addysg
- sefydliadau cynrychioliadol fel CCAC, Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

**Gwaith ymgysylltu**

Gwnaethom waith ymgysylltu gyda darparwyr unigol ynglŷn â'u gwaith yn ystod y pandemig:

- galwadau ymgysylltu
- trafodaethau arolygwyr cyswllt

Ceisiom gael adborth mewn perthynas â phrofiadau yn ystod y pandemig:

- holiaduron i staff, llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, dysgwyr a rhieni yn ystod tymor yr hydref
- fforymau athrawon
- grwpiau ffocws staff ôl-16
- rhannu llythyrau cadarnhaol gan rieni am brofiadau eu plant gyda Llywodraeth Cymru

**Meithrin cysylltiadau newydd**

Cryfhaom ein strwythurau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn barhaus:

- grŵp cyfeirio penaethiaid i lywio dulliau arolygu newydd ar gyfer ysgolion
- grŵp cyfeirio rhieni a gofalwyr (171 o aelodau)
- cynnal grwpiau ffocws staff ôl-16

**Adolygu mecanweithiau adborth**

Adolygom ein holiaduron yn ymwneud ag ysgolion yn ystod y flwyddyn, er nad yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau'n llwyr eto.

**Ailddechrau fforymau rhanddeiliaid a chynnal gweminarau**

Ailddechreuom ein rhaglen ddigwyddiadau: dwy weminar a 10 fforwm rhanddeiliaid, yn cwmpasu bron yr holl sectorau yn ystod y cyfnod hwn.

**Sianelau digidol**

- Sefydlom LinkedIn yn hydref 2020
- Ail-lansiom ein gwefan gyda dyluniad a dull llywio newydd

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae’r lefelau ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ôl i’r lefelau arferol, gydag adfywiad ers y gostyngiad cychwynnol ar ddechrau’r pandemig. Digwyddodd hyn ar ôl i ni ailddechrau’r postiadau hyrwyddo ynglŷn â’n gwaith a rhannu postiadau eraill.

## E-dafliadau – Diweddariad Estyn

Parhaodd ymgysylltiad ag e-dafliadau o ddiweddariadau Estyn i fod yn gadarnhaol ac uwchlaw safon y diwydiant ar gyfer y gyfradd clicio-drwodd i’n gwefan.

## Dysgu ar y cyd â sefydliadau yng Nghymru a’n partneriaid rhyngwladol

Bob blwyddyn, mae Estyn yn rhannu arfer ac yn cydweithio ag ystod o sefydliadau’r llywodraeth, arolygiaethau a chyrff eraill sy’n gysylltiedig ag addysg yng Nghymru a thu hwnt er mwyn datblygu ein golwg o systemau addysg ledled y Deyrnas Unedig a’r byd. Mae cydweithio o’r fath yn datblygu ein hymagweddau ein hunain at arolygu a gwaith thematig, yn cefnogi ein cyngor i Lywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo gweithredu polisi’r llywodraeth.

Rydym yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru. Gyda’n gilydd, ni yw Arolygu Cymru, sef menter ar y cyd rhwng y pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru. Yn ystod 2020-2021, cyfarfu Penaethiaid yr Arolygiaethau yn rhithwir deirgwaith i oruchwylio rhaglen waith ar y cyd ac i rannu ymatebion i’r pandemig.

Rydym yn gweithio’n anffurfiol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i rannu arfer a gwybodaeth yn ymwneud â thestunau ymchwil ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn ein galluogi i ddarparu diweddariadau ar ein gweithgareddau adolygu thematig ac adroddiadau ymgysylltu, a thrafod y gweithgarwch ymchwil yn gysylltiedig â blaenoriaethau addysg a hyfforddiant gyda’r cyrff cenedlaethol eraill.

Mae’r gallu i drefnu cyfarfodydd rhithwir a mynychu gweminarau wedi ein galluogi i barhau i weithio’n agos â’n cymheiriaid yn y DU ac Iwerddon. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyson gyda’n cydweithwyr yn arolygiaethau’r DU ac Iwerddon trwy gydol yr argyfwng. Trwy weithio gyda’n gilydd yn effeithiol, gellir gwella’r effaith y gallwn ei chreu i bobl. Mae’r gwaith hwn wedi canolbwyntio’n bennaf ar effaith y pandemig ar addysg, hyfforddiant a lles dysgwyr, gan rannu arfer ar ymgysylltu gydag ysgolion a darparwyr, yn ogystal â chefnogi datblygu polisi yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn o’n hymrwymiad i gefnogi gwella trwy weithio ar y cyd â’n cymheiriaid, yn 2020-2021, parhaom i weithio ar y cyd ag aelodau Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), sy’n cynnwys 37 o arolygiaethau addysg o bob cwr o Ewrop. Rydym wedi mynychu nifer o weithdai a gynhaliwyd ar-lein gan SICI trwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, ar y modd y mae arolygiaethau wedi addasu’u modelau arolygu a gwerthuso yn ystod y pandemig, ar addysgu a dysgu o bell, a dulliau arolygu dysgu cyfunol ac arferion asesu. Ym Mawrth 2021, cefnogom SICI trwy gymedroli trafodaeth banel am y meysydd diddordeb hyn rhwng pum gwlad, a fynychwyd gan ryw 115 o gynrychiolwyr o bob cwr o’r byd.

Er gwaethaf ffocws y cyfnod diweddar, rydym wedi rhannu arfer gyda'n cydweithwyr dramor hefyd mewn ystod eang o feysydd. Er enghraifft, rydym wedi rhannu ein dulliau o werthuso'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer lles mewn ysgolion. Rydym wedi sefydlu grŵp 'Alltraeth' gyda'n cydweithwyr yn Iwerddon ar faterion gwaith ieuenctid a methodoleg arolygu yn y maes hwn, ac rydym wedi rhannu arfer ar fodelau arolygu yn y sector nas cynhelir.

Mae ffyrdd newydd o weithio ar-lein wedi ein galluogi i barhau i weithio gydag arolygiaethau Estonia, Fflandrys, Malta, Cyprus, a darparwr addysg uwchradd yn Sbaen ac IH2EC Ffrainc ar y prosiect "Better Inspection for Better Social Inclusion" (BIBESOIN). Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar rannu arfer a datblygu fframwaith hunanwerthuso ac arolygu i werthuso sut mae ysgolion prif ffrwd yn sicrhau tegwch i blant sy'n agored i anfantais. Ers dechrau'r pandemig, mae'r fframwaith wedi'i wella ymhellach i nodi darpariaeth i ddysgwyr bregus yn sgil ysgolion yn cau yn annisgwyl, gan gynnwys mynediad at gymorth arbenigol a dyfeisiau digidol. Roedd y cyfarfod rhithwir diweddaraf, a gynhaliwyd gan arolygiaeth Malta, yn canolbwyntio ar ddysgu o bell a lleihau gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol trwy ddysgu digidol, a defnyddio gemau addysgol law yn llaw â deallusrwydd artiffisial. Rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol at greu'r fframwaith, sydd yn ei bumed cyfnod datblygu ac yn barod i'w roi ar brawf mewn ysgolion yn Cyprus, o bosibl, yn 2021. Oherwydd y pandemig, ni fydd y fersiwn ar-lein o'r pecyn cymorth ar gael hyd nes 2022 bellach.

## Pobl fedrus

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau dysgu sefydliadol gan gynnwys tair wythnos o ddysgu proffesiynol a chynhadledd i'r holl staff, sef 'Teimlo'n dda a gweithio'n dda' ['Feeling good and functioning well'], gan ganolbwyntio ar les a gwydnwch. Fodd bynnag, effeithwyd ar ein rhaglen arferol o weithgareddau dysgu a datblygu gan y pandemig COVID-19. Lle bo modd, symudom i'w cyflwyno'n rhithwir.

Cynhaliwyd y gweithgareddau datblygiad proffesiynol canlynol yn ystod 2020-2021 hefyd:

- ymsefydlu ar gyfer rhai newydd a ymunodd (addaswyd ar gyfer cyflwyno'n rhithwir)
- cefnogaeth barhaus i ddatblygu medrau iaith Gymraeg
- gweithgareddau â ffocws i gynorthwyo pobl i addasu i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig COVID-19 ac iechyd meddwl da
- hyfforddiant diweddaru: iechyd a diogelwch, yn gyfrifol am wybodaeth, amrywiaeth a chynhwysiant
- dod yn hyderus o ran anabledd
- mynychu seminarau a chynadleddau proffesiynol ar gyfer cyflogeion arolygu a gwasanaethau corfforaethol

### AEM

Yn 2020-2021, gwnaethom:

- ddatblygu strategaeth dysgu a datblygu proffesiynol gynhwysfawr ar gyfer AEM a sicrhau bod gweithgarwch dysgu a datblygu proffesiynol ar gyfer AEM yn parhau i ymgorffori ystod eang o ddulliau; mae hyn yn cynnwys creu modiwlau dysgu o bell rhyngweithiol i ddatblygu arfer a medrau arolygu

- sicrhau bod gweithgareddau yn ystod wythnosau dysgu a datblygu proffesiynol yn parhau'n gyson â'r strategaeth dysgu a datblygu proffesiynol, ac yn cynnwys:
  - mwy o amser i AEM ymgysylltu â darllen, astudio hunangyfeiriedig a myfyrio
  - mwy o gyfleoedd i drafod materion mewn grwpiau bach ac i fynychu gweithdai o'u dewis
- canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth AEM o *Cwricwlwm i Gymru* trwy gyfres o fodiwlau
- cefnogi AEM i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwilio personol;

**Gwasanaethau corfforaethol**

Yn 2020-2021, gwnaethom:

- barhau i gynorthwyo pobl gyda heriau gweithio o bell gan gynnwys meithrin gwydnwch a chyfranogi mewn cyfarfodydd rhithwir, a nodi meysydd ffocws â blaenoriaeth ar gyfer dysgu a datblygu
- cydweithio â grŵp o Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu mynediad i raglen datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnwys medrau rheoli hanfodol ac arweinyddiaeth strategol
- cynnal diweddariad o hyfforddiant gorfodol y gwasanaeth sifil
- hyfforddi pedwar unigolyn yn Hyrwyddwyr Cyflogeion Amser i Newid, sy'n darparu cymorth ychwanegol i'n hymrwymiad i gefnogi iechyd meddwl da yn y gweithle

**Cydraddoldeb a lles cyflogeion**

Yn ystod 2020-2021, parhaom i gynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cynnwys y modd yr ystyriwn cydraddoldeb pan fyddwn yn arolygu ac yn rheoleiddio, a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ein hunain a'r rheiny rydym yn contractio â nhw yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal. Cyhoeddom ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ym Medi 2020 yn unol â chanllawiau newydd COVID-19.

> Parhaodd ein gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru)

Roedd nifer o'n hadolygiadau thematig a'n hastudiaethau arfer orau a gyhoeddwyd yn cwmpasu'r modd y gall materion cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithio ar ddysgwyr a'r modd y gall darparwyr fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn, er enghraifft:

**Adolygiadau thematig**

- Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant
- Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant – deunyddiau hyfforddi
- Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19
- Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion

- Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion – deunyddiau hyfforddi
- Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol
- Ysgolion cymunedol – deunyddiau hyfforddi
- Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol
- Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr

Gellir cael manylion llawn ein hadroddiadau thematig trwy ddilyn y ddolen hon.

**Arfer effeithiol**

- Mae diddordebau plant yn arwain gweithgareddau dysgu
- Caiff rhaglenni dysgu unigol eu teilwra i gefnogi anghenion dysgwyr
- Mae dull strwythuredig o gyfathrebu yn helpu hyrwyddo amgylchedd dysgu cynhwysol
- Dod i'ch adnabod chi
- Gwella medrau pobl ifanc ag anawsterau dysgu
- Cefnogi grwpiau o ddisgyblion agored i niwed
- Llwyddiant gyda chynlluniau dysgu unigol ar-lein
- Ymgysylltu a chefnogi rhieni a theuluoedd
- Athroniaeth cynhwysiant
- Defnyddio Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar draws yr ysgol
- Croesawu teuluoedd o dramor
- Mae ethos a diwylliant cynhwysol yn hyrwyddo cyfranogiad effeithiol gan ddisgyblion
- Cynorthwywyr Cymorth Dysgu yn arwain ar raglenni ymyrraeth
- Cymorth ar gyfer lles yn ystod y cyfnod pontio o'r sector cynradd i'r uwchradd
- Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned
- Cefnogi anghenion dysgu unigol disgyblion
- Datblygu rhaglen addysg awyr agored
- Diwallu anghenion cyfathrebu disgyblion
- Gwella'r broses ddiogelu
- Gwella lles staff a dysgwyr
- Meithrin perthnasoedd gwaith i gefnogi anghenion disgyblion
- Datblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion
- Annog dysgu fel teulu
- Mae diddordebau plant yn arwain gweithgareddau dysgu
- Mae gan y bartneriaeth Cymraeg i oedolion rôl allweddol mewn hyrwyddo dwyieithrwydd

Gellir cael manylion llawn ein hastudiaethau arfer effeithiol gan ddefnyddio'r ddolen hon.

Cafodd ein pryder am iechyd a lles ei gydnabod gan ein hailachrediad o'r Safon Iechyd Corfforaethol. Cafodd asesiad eleni ei oedi o Hydref 2020 i Ebrill 2021 ac fe'i cynhaliwyd fel proses 'llai manwl'. Adroddodd yr asesydd yn ôl gan ddweud "mae'n ymddangos bod lles eich staff wedi cael lle gwirioneddol ganolog yn y blynyddoedd diwethaf ers i mi ymweld â'r swyddfa ddiwethaf".

Mae ein cynllun gweithredu Safon Iechyd Corfforaethol yn cael ei fonitro gan ein Grŵp Iechyd, Diogelwch, Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu.

Roedd camau a gymerwyd i hyrwyddo iechyd a lles yn cynnwys:

- hyrwyddo gweithgareddau iechyd a gwybodaeth ymwybyddiaeth gyda ffocws cryf ar les meddwl a gwydnwch
- hyfforddiant i reolwyr ar sut i adnabod materion a chefnogi iechyd meddwl a gwydnwch
- ymrwymo i'r Adduned Amser i Newid a hyfforddi pedwar Hyrwyddwr Iechyd Meddwl
- ffocws cryf ar les ac ymgysylltu fel bod cefnogaeth dda i gyflogeion tra'u bod yn gweithio gartref ac fel nad ydynt yn teimlo'n ynysig
- cynnal arolygon pwls i fesur effeithiolrwydd trefniadau gweithio a chymorth yn ystod pandemig COVID-19
- datblygu safle mewnrwyd 'siop un stop' ar gyfer lles, ble gall cyflogeion gael gwybodaeth a chymorth e.e. gan ddarparwr cymorth cyflogeion, ein swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyrwyddwyr iechyd
- datblygu pecyn cymorth lles y gaeaf yn darparu syniadau ar sut gallai cyflogeion ofalu am eu hiechyd a'u lles yn ystod misoedd y gaeaf
- canolbwyntio ein cynhadledd staff ar y thema 'Teimlo'n Dda a Gweithredu'n Dda' ac annog yr holl gyflogeion i ofalu am eu lles
- lansio rhaglen o sesiynau rheolaidd dal i fyny gyda choffi yn ein digwyddiad 'Amser i siarad' ym mis Chwefror
- atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd galwedigaethol, gan gynnwys atgyfeiriadau cynnar ar gyfer materion yn ymwneud ag iechyd meddwl
- darparu cwnsela drwy ein Darparwr Cymorth Cyflogeion

## Safonau'r Gymraeg

Yn nhymor yr haf, cyhoeddwyd ein hwythfed Adroddiad Blynyddol ar y defnydd corfforaethol o'r Gymraeg (ar gyfer 2019-2020), a oedd yn cynnwys crynodeb o gynnydd a blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021. Yn benodol, amlygodd yr adroddiad y modd y parhaom i gynnal ein hadolygiadau cymheiriaid ym mhob tîm er mwyn adolygu ein cynnydd o ran bodloni safonau'r Gymraeg, a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Er y bu'n rhaid i ni gau'r swyddfa ar ddiwedd y cyfnod adrodd, oherwydd pandemig COVID-19, parhaom i ymgysylltu'n ddwyieithog, yn allanol ac yn fewnol, fel arfer. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gwbl ddwyieithog drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ailgyfeirio ein switsfwrdd ffôn i staff perthnasol a oedd yn gweithio gartref er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth ffôn dwyieithog.

Bodlonwyd gofynion Safonau'r Gymraeg

## Sylwadau a chwynion

Fel y gellid disgwyl, ni dderbyniom unrhyw gŵynion cyfnod 2 (ffurfiol) newydd eleni, naill ai ynglŷn â gwaith arolygu nac ar gyfer unrhyw agwedd arall ar ein gwaith. Yn ogystal, dim ond pedair cwyn anffurfiol a gawsom. Derbyniwyd tair o'r rhain yn y tymor cyntaf ac roeddent yn ymwneud â gweithgarwch ychydig cyn y cyfnod clo neu ychydig ar ôl hynny. Roedd y bedwaredd cwyn yn ymwneud â gwahaniaeth barn ynghylch agweddau ar un o'n hadroddiadau thematig. Ymatebwyd yn llawn i bob cwyn, ac o fewn yr holl ofynion o ran terfyn amser.

Er y bu hon yn flwyddyn dawel o ran cwynion, rydym wedi parhau i adolygu ein polisi a'n gweithdrefnau, gan wneud diweddariadau i'n canllawiau, a chynhaliom gyfres o sesiynau briffio ar gyfer timau sector, gan eu cynghori ynglŷn â'r prosesau i'w dilyn wrth gynnal ymchwiliadau i gŵynion.

Dim cwynion ffurfiol
Ymatebwyd i'r holl gŵynion anffurfiol o fewn y terfyn amser targed

## Ceisiadau am wybodaeth

Yn y flwyddyn adrodd hon, derbyniodd Estyn 14 o geisiadau, ac ymchwiliwyd ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith. Roedd y nifer yn ostyngiad sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn ganlyniad y pandemig a'r cyfnod clo mae'n debyg, gan nad oeddem yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau arolygu a gweithgareddau eraill a fyddai'n esgor ar geisiadau fel arfer. Oherwydd natur y ceisiadau a dderbyniwyd a'r ffyrdd yr ymatebom ni, ni wnaethom gymhwyso eithriadau mewn perthynas ag unrhyw achosion a dderbyniwyd o'r newydd trwy gydol y flwyddyn ariannol hon. Mewn 12 achos, rhyddhaom wybodaeth yn llawn, ac yn y ddau achos arall, nid oedd unrhyw wybodaeth gennym i'w rhyddhau.

Ymchwiliwyd ac ymatebwyd i'r holl geisiadau o fewn y terfyn amser statudol

Mae manylion am geisiadau ac ymatebion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan, a gellir eu gweld yma.

**Adrodd ar gynaliadwyedd a bioamrywiaeth**

Cawsom ein hailachredu eto gyda “Safon y Ddraig Werdd” Lefel 3 yn Ionawr 2021.

Defnyddiwn y broses achredu i nodi cyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac amlinellwyd y rhain yn ein polisi amgylcheddol. Dyma ddolen i’n Polisi Amgylcheddol 2022. Mae ein Cynllun gweithredu amgylcheddol yn parhau i gael ei ddiweddaru a’i fonitro gan y Grŵp Cyflwyno Gwasanaethau.

Mae prif effaith Estyn ar yr amgylchedd yn deillio fel arfer o allyriadau trafnidiaeth $CO_2$ pan fydd ein harolygwyr yn ymweld â darparwyr addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, cafodd arolygiadau eu hatal yng nghanol mis Mawrth 2020, a symudwyd yr holl ddigwyddiadau hyfforddi i fformat rhithwir. Roedd teithio gan staff yn ystod y cyfnod hwn wedi’i gyfyngu i ymweliadau ymgysylltu hanfodol gan ddefnyddio’u ceir personol ym mhob achos ond un, lle teithiwyd ar drên. Ni wnaed unrhyw ddefnydd o geir llog ac ni fu unrhyw deithio awyr yn ystod y cyfnod. Ein cyfanswm allyriadau o deithio oedd 988kg (109,977kg yn 2019-20) a theithiwyd 3,472 o filltiroedd yn ystod y cyfnod, o gymharu â 356,129 yn y flwyddyn flaenorol.

Fe wnaeth defnydd o drydan ostwng 74% tra bod y swyddfa ar gau dros dro, a diffoddwyd y system awyru am y cyfnod adrodd cyfan. Fodd bynnag, parhawn i ddefnyddio ynni glân, ac adroddwn am allyriadau sero o drydan am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Roedd allyriadau $CO_2$ o ddefnyddio nwy yn is hefyd, sef 8,831kg (10,731kg yn 2019-20), gostyngiad o 17.7%. Er nad yw hyn yn sylweddol, dylid egluro ein bod yn talu am ganran o’r cyfanswm defnydd nwy yn yr adeilad a bod tenantiaid eraill yn bresennol am gyfnodau hwy yn ystod y flwyddyn.

Yn gyffredinol, cyfanswm ein hallyriadau $CO_2$ (trafnidiaeth, trydan a nwy) yn 2020-2021 oedd 9,819 kg – mae hyn 92% yn is na’r flwyddyn adrodd flaenorol, yn bennaf oherwydd effaith pandemig COVID-19 ar ein hallyriadau trafnidiaeth fel yr eglurwyd uchod.

Mae ein ffigurau allyriadau yn seiliedig ar ein hamgylchedd swyddfa. Yng ngolau symud i weithio gartref yn ystod yr argyfwng presennol ac o bosibl symud yn y tymor hir at waith cyfunol rhwng y swyddfa a’r cartref yn y dyfodol, yn 2021-2022, byddwn yn ymchwilio i effaith gweithio gartref o safbwynt adroddiadau amgylcheddol.

Hon hefyd yw ein trydedd flwyddyn o adrodd yn llawn ar sero wastraff yn mynd i dirlenwi.

Gellir gweld perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol ar gyfer y cyfnod yn yr Adroddiad Amgylcheddol diweddaraf ar ein gwefan. Dyma’r Adroddiad amgylcheddol (yn cynnwys adrodd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau) Tachwedd 2020).

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Amgylcheddol yn Nhachwedd 2020 ac mae'n cynnwys ein cydymffurfiaeth â dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae ein Polisi Amgylcheddol 2022 wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

**Codi arian i elusennau**

Yn 2020-2021, parhaodd ein staff i fod yn gefnogwyr brwdfrydig i ddigwyddiadau elusennol, gan godi dros £4,800 ar gyfer achosion da, gan gynnwys Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith.

Cynhaliwyd y digwyddiad codi arian eleni yng Ngorffennaf 2020 gyda llawer o staff yn cefnogi her rhithwir 3 Chopa Cymru gyntaf erioed Tŷ Hafan yn unigol. Roedd dau opsiwn i'w cael: -

- Cerdded neu redeg y pellter cyfan y byddech yn ei wneud pe baech yn cerdded i fyny'r tri mynydd, sef yr Wyddfa, Cadair Idris a Phen Y Fan - 20.35 milltir neu 32.7km, neu
- Cwblhau'r un nifer o gamau fertigol sydd eu hangen i ddringo'r tri mynydd (oddeutu 27,638 sy'n 1,063 o esgyniadau) trwy gerdded i fyny ac i lawr y staer os oes gennych staer, neu gan ddefnyddio stepen gadarn





# Uchafbwyntiau perfformiad ariannol

## Canlyniadau am y flwyddyn

Arhosodd ein cyllid ‘cyfwerth ag arian parod’ yn 2020-2021 o ychydig dros £11m gan Lywodraeth Cymru yr un peth am yr ail flwyddyn yn olynol. Byddai lefel y cyllid hwn, heb gyllid grant ychwanegol fel y darparwyd yn 2019-2020, wedi creu heriau sylweddol i ni i gyflawni ein rhaglen waith flynyddol arferol.

Cafodd y cyfyngiadau a bennwyd yn sgil pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar ein defnydd o adnoddau yn 2020-2021. O ganlyniad i atal ein rhaglen arolygu gynlluniedig ar gyfer tymor yr haf a disodli’r mwyafrif o’n hymweliadau cynlluniedig eraill â darparwyr gyda galwadau ffôn ymgysylltu, roedd cryn ostyngiad yn ein gwariant ar gostau arolygwyr allanol ac ar dreuliau teithio a chynhaliaeth ein harolygwyr mewnol (AEM), fel y dangosir yn Nodyn 4 i’r Adran Gyfrifon o’r adroddiad hwn.

Cafodd cyllid grant a oedd wedi’i gytuno mewn egwyddor gyda’r Gyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer 2020-2021 ei ganslo. Bwriadwyd i’r cyllid hwn gynorthwyo â recriwtio AEM yr oedd eu hangen i gyflawni gweithgareddau’r cylch gwaith gwreiddiol y cytunom gyda Llywodraeth Cymru. Golygai newidiadau i’n cynllun blynyddol yn deillio o’r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y pandemig fod ffocws ein rhaglen waith wedi newid, ac y gellid atal y cynllun i recriwtio. Hefyd, ataliom recriwtio staff i ddisodli unigolion a oedd yn gadael Estyn yn ystod y flwyddyn. Mae’r gostyngiad canlyniadol mewn niferoedd staff yn cael ei adrodd yn y siartiau sy’n dangos cyfartaledd a chyfanswm nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar dudalen 61 yr Adroddiad Atebolrwydd. Yn 2021-2022, byddwn yn ailddechrau ein cynlluniau recriwtio. Er gwaetha’r gostyngiad yng nghyfanswm niferoedd staff, roedd cynnydd bach yn ein costau staff ar gyfer 2020-2021[2] o gymharu â’r flwyddyn flaenorol – cyfrifir am hyn gan y dyfarniad cyflog 2.5% a weithredwyd yn Ebrill 2021 yn gyson â dyfarniad Llywodraeth Cymru i’w staff. Mae manylion ein polisi cyflogau a chyfraddau cyflog ar gael yn ein Datganiad Polisi cyhoeddedig.

Mae’r arbedion cyffredinol yn ‘Costau eraill’ (gweler Nodyn 4 i’r cyfrifon am fanylion) yn sgil y gostyngiad mewn gweithgarwch arolygu yn bennaf. Roedd ychydig iawn o feysydd gwariant a gynyddodd o gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol. Dim ond £160,000 o’r gyllideb cyllid cyfalaf o £281,000 a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddiom, a defnyddiwyd y mwyafrif o’r gwariant hwn i adnewyddu ffonau symudol ar gyfer staff arolygu, a rhoi’ system wybodaeth ddwyieithog newydd yr Ystafell Arolygu Rithwir ar waith.


Mae’r Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2021 yn dangos rhwymedigaethau net o £100,000 (2019-2020: rhwymedigaethau net o £157,000). Mae’r newid yn ymwneud ag effaith net y cynnydd/gostyngiad mewn asedau sefydlog a balans y banc, dyledwyr, darpariaethau a chroniadau. Nid yw’n anarferol i Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Estyn ddangos sefyllfa o warged neu ddiffyg cymharol fach ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd y lefel uchel o symiau derbyniadwy a symiau taladwy. Arhosodd ein symiau taladwy ar lefel gymharol debyg ag yn 2019-2020 a’n prif gredydwr oedd Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-dalu ein cyflogau. Ar 31 Mawrth 2021, roedd symiau derbyniaday yn is nag ar gyfer 2020

[2] Tabl 2, tudalen 80


oherwydd, yn wahanol i'r flwyddyn flaenorol, nid oedd ad-daliadau cyflog yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer staff ar secondiad, a hefyd, nid oedd incwm grant yn ddyledus.


Yn ystod 2021-2022, byddwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni ein rhwymedigaethau yn unol â'r sail 'busnes gweithredol' a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn. Ni chafwyd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2020-2021 ac ni fu unrhyw gostau ymadael yn gynnar. Gwnaethom daliad iawndal i aelod o'n staff a adawodd o dan delerau effeithiolrwydd ar sail iechyd.

Caiff ein gwariant wedi'i gyllidebu ar gyfer blynyddoedd y dyfodol ei bennu gan Lywodraeth Cymru, a bydd unrhyw dueddiadau gwariant tymor hir yn cael eu heffeithio gan y cynnydd neu'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i ni. Bydd COVID-19 yn parhau i effeithio ar ein gweithgareddau yn 2021-2022.



**Cyfanswm gwariant (refeniw a chyllid) yn ôl penawdau cyllideb ar gyfer 2020-2021**




Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau 2018-2019, 2019-2020 a 2020-2021
£800
£700
£600
£500
£400
£300
£200
£100
£-
£000'oedd
2018-2019
2019-2020
2020-2021
Blwyddyn
Adeiladau
TG a thelathrebu
Teithio a Chynhaliaeth
Gweinyddu cyffredinol
Adnoddau arolygu allanol
Arolygu cyffredinol
Dibrisiant
Cyfieithu i'r Gymraeg
Hunanwerthuso

# Adran 2
## Yr Adroddiad Atebolrwydd



## 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae ein **Bwrdd Gweithredol**, yn cynnwys aelodau gweithredol (PAEM a chyfarwyddwyr strategol), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEM i arwain a rheoli Estyn yn gorfforaethol ac mae ganddo un is-bwyllgor. Mae ein **Pwyllgor Cynghori ar Arolygu a Pholisi**, a fynychir gan PAEM a chyfarwyddwyr Estyn, yn cefnogi PAEM wrth arwain a rheoli gwaith cynghori ar arolygu a pholisi Estyn.

Mae ein **Bwrdd Strategaeth (y Bwrdd)**, yn cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol (cyfarwyddwyr anweithredol), yn pennu ac yn monitro ein hagenda strategol. Caiff y Bwrdd Strategaeth ei gadeirio gan aelod anweithredol ac mae ganddo ddau is-bwyllgor, sydd hefyd yn cael eu cadeirio gan aelodau anweithredol; y **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** a'r **Pwyllgor Cyflogau**. Gellir gweld cofnod llawn o aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd / Pwyllgor Strategaeth ar ein gwefan.

### Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau

Rydym yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Caiff datganiadau eu gwneud hefyd gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol arall a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Trwy gydol 2020-2021, fe wnaeth ein Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth fonitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad a darparu goruchwyliaeth o gydymffurfio â pholisïau a phrosesau sicrwydd yn ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth.

### Polisi talu

Yn 2020-2021, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar gyfer Contractau Estyn. Talodd Estyn 99% o anfonebau diamheuol o fewn 10 diwrnod, sydd o fewn y targed (95%). Roedd yr 1% na thalwyd o fewn 30 diwrnod yn ymwneud ag anfoneb a dderbyniwyd yn rhannol a'i hoedi'n ddiangen. Mae'r broses rhan daliad wedi'i hegluro ers hynny gyda phawb sy'n gysylltiedig.

Talwyd 99% o'r anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod (yn erbyn targed o 100%)



Talwyd 99% o'r anfonebau diamheuol o fewn 10 diwrnod (yn erbyn targed o 95%)



# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

# Y datganiad llywodraethu

### Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu busnes Estyn. Mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau Estyn yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2017 (Y Cod), eu hadlewyrchu yn nhrefniadau llywodraethu Estyn, yng nghyd-destun amgylchiadau Estyn fel adran anweinidogol. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut mae llywodraethu da wedi'i gynnal yn Estyn ac yn esbonio'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliad a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Mae ein fframwaith llywodraethu corfforaethol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Trwy gydol 2020-2021, cynhaliom ein trefniadau llywodraethu, ac yn wir, cynyddom fynychder cyfarfodydd yw uwch dîm rheoli a gwella ein dulliau cyfathrebu mewn ymateb i'r heriau yn sgil sefyllfa pandemig COVID-19. Symudodd ein cyfarfodydd i'w cynnal yn rhithwir yn gyfan gwbl, gyda phrosesau a phrotocolau ar waith i sicrhau trafod cadarn a her adeiladol. Mae'r diagram ar ddiwedd y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i drefniadau llywodraethu Estyn.

Amlinellir datganiad clir o ddiben a gweledigaeth Estyn ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn ac mae'n nodi ei brif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am berfformiad a chyflawniad Estyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan hefyd. Ar ddechrau 2020-21, addasom ein cynllun i fodloni'r heriau a oedd yn datblygu o sefyllfa'r pandemig – newidiom ffocws ein gweithgareddau mewn cydweithrediad parhaus â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Caiff y gwaith o oruchwylio Estyn ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Cefnogwyd aelodau trwy gydol y flwyddyn gyda mynediad i dechnolegau priodol, fel Microsoft Teams, i sicrhau y gellid cynnal busnes yn ddiogel ac yn effeithlon ar sail gweithio o bell.

Yn ystod 2020-2021, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) bob chwarter; roedd pob un o'r aelodau yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd ARAC. Mae'r Bwrdd Strategaeth wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a

chefnogi gweithrediaeth Estyn. Roedd rhai o'r meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2020-2021 yn cynnwys:

- y newid ffocws yn ein gwaith yn ystod y flwyddyn, er enghraifft y cymorth a roddwyd i barhad dysgu
- ein hymgysylltu (galwadau ac ymweliadau) i helpu cefnogi darparwyr ac adrodd ar effaith y pandemig
- cryfhau ein perthnasoedd gyda rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau mewn perthynas â'n rôl atebolrwydd
- datblygu ein trefniadau arolygu yn y dyfodol
- Adroddiad Blynyddol PAEM

Daw pob cyfarfod i ben gyda hunanwerthusiad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae ein cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod trefniadau Estyn ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2020-2021.

Rydym yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion rheolaeth ariannol, a chaiff atebolrwydd ei reoli trwy Gytundeb Swyddog Cyfrifyddu rhwng PAEM a Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig Llywodraeth Cymru, Andrew Goodall, sef Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol GIG Cymru. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt hwn yn helpu i gynnal annibyniaeth Estyn mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod cysylltiadau agos ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'r Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn parhau i gefnogi dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Gall ein cyfarwyddwyr anweithredol gysylltu'n uniongyrchol â Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), a'i rôl yw cynrychioli Mr Goodall yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Estyn yn Llywodraeth Cymru.

## Archwilio ac effaith

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) ei gyhoeddi ar wefan Estyn; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith allweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2020-2021 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor; mae'r pwyllgor yn fodlon fod trefniadau Estyn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg yn briodol trwy gydol 2020-2021.

Parhaodd RSM i ddarparu ein gwasanaeth archwilio mewnol. Symudwyd yr holl waith archwilio i'w wneud o bell, a gweithiom yn agos â staff archwilio i sicrhau nad oedd hyn yn rhwystro effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd; rhoddodd elfennau o'r ffurf gwaith archwilio 'o bell' hwn fwy o hyblygrwydd ac effeithiolrwydd, a bydd yn cael ei ymgorffori yn ein trefniadau i'r dyfodol.

Cymeradwyodd ARAC y rhaglen o archwiliadau ar gyfer 2020-2021, gan barhau i ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg i sefydlu meysydd ymdriniaeth o fewn rhaglen archwilio tair blynedd a gytunwyd gydag RSM. Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac yn yr adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, ystyriwyd

adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Cynghorodd yr adroddiad hwn am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i'w hystyried gan aelodau o'r ARAC. Llywiodd y canlyniad o'r ymdriniaeth archwilio mewnol farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith rheolaeth fewnol Estyn; '*mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol*'. O ganlyniad i waith a gwblhawyd gan archwilwyr mewnol Estyn yn ystod 2020-2021, cafwyd adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Adolygwyd yr holl adroddiadau sicrwydd archwilio mewnol a'r prif faterion sy'n codi a drafodwyd gan yr ARAC, a oedd yn fodlon fod yr holl gamau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

**Tabl 1**
**Rhaglen archwilio mewnol 2020-2021**

| **Maes archwilio mewnol** | **Lefel sicrwydd** | **Nifer y camau gwella a gytunwyd gan y rheolwyr** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth uchel | Blaenoriaeth ganolig | Blaenoriaeth isel | **Cyfanswm** |
| 1 Mapio Sicrwydd Prosesau'r Tîm Cynllunio | Cynghorol | | | | |
| 2..Rheolaethau ariannol allweddol | Sylweddol | | | 5 | 5 |
| 3..Asedau a rhestri eiddo | Sylweddol | | | 2 | 2 |
| 4 Adnoddau dynol – iechyd meddwl a threfniadau cydraddoldeb | Sylweddol | | | 3 | 3 |
| 5 Fframwaith rheoleiddio | Sylweddol | | | 6 | 6 |
| 6 Rheolaethau ariannol o bell | Rhesymol | | | 4 | 4 |
| 7 Seiberddiogelwch | Cynghorol | | 3 | 2 | 5 |
| 8 Teithio a chynhaliaeth* | Sylweddol | | | 1 | 1 |
| **Cyfansymiau** | | | **3** | **23** | **26** |

* Gwaith archwilio a wnaed yn 2019-2020 ac yr adroddwyd amdano yn 2020-2021

Cyfarfu Pwyllgor Cyflogau Estyn (lle bu pob aelod yn bresennol) yn ystod 2020-2021 ac ystyriodd yr adolygiad o berfformiad Cyfarwyddwyr Strategol a gynhaliwyd gan PAEM. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor gyngor i PAEM hefyd ynglŷn â lefelau tâl a lwfansau ar gyfer staff Estyn.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae Estyn wedi sicrhau cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Nodiadau Polisi Caffael Swyddfa'r Cabinet a llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifyddu (ASC) yng Nghymru. Darparodd ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddatganiad sicrwydd i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a oedd yn adrodd ar yr uchod ac yn darparu sicrwydd ar feysydd perthnasol eraill, fel caffael, bodloni rhwymedigaethau trech, cydymffurfio ag egwyddorion recriwtio'r gwasanaeth

sifil a chydymffurfio â threfn adrodd Swyddfa'r Cabinet. Yn ystod 2020-2021, ni ddefnyddiodd Estyn unrhyw fath o gytundeb cyfrinachedd gyda'i gyflogeion a'i weithwyr.

Mae Estyn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ond yn cynnal ei statws fel corff annibynnol, felly, fel adran anweinidogol, nid yw Estyn yn destun Cyfarwyddiadau gan Weinidogion.

Mae Estyn yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Strategaeth, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill a oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau yn Estyn. Mae Cofrestr Buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

Cwmpaswyd y meysydd sicrwydd uchod yn y datganiad sicrwydd rheolaidd a gyflwynwyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â diweddariadau ar dwyll, diogelwch gwybodaeth, olrhain yn erbyn dangosyddion perfformiad, a materion ariannol sy'n effeithio ar y cyfrifon blynyddol.

### Rheoli risg

Mae system rheoli risg Estyn wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion Estyn, a gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hyn a'r effaith pe cânt eu gwireddu. Ar gyfer 2020-2021, parhawyd i gadw cofrestrau risg ar lefel strategol gan ein Bwrdd Gweithredol (a'u hadolygu ymhellach yn y Bwrdd Strategaeth), ar lefel gorfforaethol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Estyn, ac ar lefelau gweithredol gan weithgorau, timau swyddogaethol a thimau prosiect. Mae gan bob risg berchennog unigol sy'n gyfrifol am fanylu ar y rheolaethau sydd ar waith a'u cofnodi, ynghyd â chamau gweithredu pellach a gynlluniwyd i liniaru'r risg; hefyd, mae proses uwchraddio ar waith i godi risgiau i lefel reolaeth uwch. Mae perchenogion risg yn darparu sicrwydd a thystiolaeth fod rheolaethau allweddol ar gyfer rheoli risgiau ar waith ac yn gweithio'n effeithiol.

Daeth set o risgiau a heriau newydd i'r golwg yn sgil pandemig COVID-19. Fe wnaeth yr orfodaeth i symud ein holl staff i weithio gartref gyflwyno dimensiwn newydd i risg. Mae risgiau i les corfforol a meddyliol staff, risgiau diogelwch gwybodaeth, a risg uwch o dwyll a lleihau llywodraethu da, o bosibl, bob un ohonynt wedi bod yn destun asesu a rheoli parhaus.

Parhaodd holl elfennau ein strwythur llywodraethu i weithio'n effeithiol; darparwyd diweddariadau ar drefniadau i'n ARAC yn y cyfarfod ym mis Mai 2020, ynghyd â'r adolygiad rheolaidd o'n cofrestr risg ariannol. Defnyddiom ein gwasanaeth archwilio mewnol i adolygu ein rheolaethau ariannol o bell, a gweithredwyd y nifer fach o welliannau a argymhellwyd yn gyflym. Trwy gydol y flwyddyn, rhoddom sylw arbennig i les staff a darparom arweiniad a chymorth rheolaidd, a lles oedd ffocws ein cynhadledd staff flynyddol, a gynhaliwyd yn rhithwir yn Ionawr 2021. Roeddem yn falch o weld ein hymdrechion yn cael eu cydnabod yn allanol drwy'r broses ailachredu ar gyfer ein Safon Iechyd Corfforaethol.

Cododd y pandemig broffil a photensial bygythiadau seiberddiogelwch hefyd - maes risg arall y rhoesom mwy o ffocws arno. Comisiynom adolygiad cynghorol gan ein darparwr archwilio mewnol i drafod nifer o gamau i gryfhau ein mesurau diogelwch a

pharhau i roi sylw manwl i'r maes hwn er mwyn sicrhau bod mesurau priodol a chymesur gennym, yn seiliedig ar wybodaeth a chyngor o ffynonellau fel y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac adroddiad arolwg diweddar Archwilio Cymru.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2020-2021 20 a gwblhawyd gan bob un o gyfarwyddwyr Estyn yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2020-2021.  Hefyd, lle bo'n briodol, ceisiom a chawsom sicrwyddau a dderbyniwyd yn allanol, er enghraifft, gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gwasanaethau cyflogres ac adnoddau dynol y mae'n eu darparu i Estyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol.


**Materion llywodraethu arwyddocaol**

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn o ran fframwaith llywodraethu cyffredinol Estyn.  Cwmpasodd yr adolygiadau archwilio mewnol feysydd allweddol o fusnes Estyn, a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth a dim ond ychydig iawn o argymhellion a godwyd mewn adroddiadau sicrwydd.

Rwy'n hyderus iawn yn ein prosesau a'n pobl.  Yn y cyfnod heriol hwn i bawb, rwy'n hynod o falch eto o weld tystiolaeth o lefelau uchel o ran ymgysylltiad staff ac ymrwymiad i werthoedd Estyn a chod y gwasanaeth sifil.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
5 Gorffennaf 2021

# Ein fframwaith sicrwydd a chraffu



## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad o ran sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol


Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. Mae Estyn eisoes wedi mireinio'i uwch reolaeth o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb.


Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran cymhwysedd
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol

Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2020-2021.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2020), dyfarnwyd codiad cyflog cyfunol o 2.5% i swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Band 1 Estyn yn effeithiol o 1 Ebrill 2020.


Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn ôl categori staff 2018-2019, 2019-2020 a 2020-2021
120.00
100.00
80.00
60.00
40.00
20.00
0.00
Nifer y staff
55.84
56.42
55.84
51.64
56.23
51.64
2018-2019
2019-2020
2020-2021
Categori staff
Rheolwyr a Staff Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys asiantaeth
Adnoddau Arolygu, gan gynnwys secondeion


Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi, cyfartaledd ar gyfer 2020-2021
Staff dros dro -0.51 0.08
Swyddog Gweinyddol -8.95 3.00
Swyddog Gweithredol -11.77 6.64
Swyddog Gweithredol Uwch -4.46 1.92
Uwch swyddog Gweithredol -2.50 0.00
Gradd 7 -1.18 0.65
Secondeion -0.58 0.42
Gradd 6 -23.86 30.98
Gradd 6 Rheoli -3.98 3.00
Uwch Wasanaeth Sifil -2.00 1.00
Gradd staff
-30.00
-20.00
-10.00
0.00
10.00
20.00
30.00
40.00
Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn
Benywaidd
Gwrywaidd

### Tâl (gan gynnwys cyflog), buddion a hawliau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

**Tâl (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)** [3]

| Swyddogion | 2020-2021 | | | | | 2019-2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog £000oedd | Tâl am Berfformiad ar Wahân £000oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000[4] agosaf | Cyfanswm £000oedd | Cyflog £000oedd | Tâl am Berfformiad ar Wahân £000oedd | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000oedd |
| Meilyr Rowlands Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 115-120 | - | - | 52 | 165-170 | 110-115 | - | - | 29 | 135-140 |
| Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol | 85-90 | - | - | 35 | 120-125 | 85-90 | - | - | 34 | 115-120 |
| Jassa Scott Cyfarwyddwr Strategol | 85-90 | - | - | 43 | 125-130 | 85-90 | - | - | 55 | 140-145 |
| Phillip Sweeney Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 80-85 | - | - | 29 | 105-110 | 75-80 | - | - | 31 | 105-110 |
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y Cyflog Uchaf | 115-120 | | | | | 110-115 | | | | |
| Cyfanswm canolrifol | £74,730 | | | | | £72,905 | | | | |
| Cymhareb gan ddefnyddio pwynt canol y band cyflog | 1.51 | | | | | 1.54 | | | | |
| Ystod cyflogau staff | £20,500-£117,594 | | | | | £20,000- £114,475 | | | | |

### Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronnus a wnaed gan Estyn ac felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

[3] Archwiliwyd

[4] Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan Estyn ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

| Hawliau pensiwn i uwch reolwyr [5] | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/21 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000oedd** | **Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd** | **Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/21 £000oedd** | **Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/20 £000oedd** | **Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd** | **Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth £100 agosaf** |
| Meilyr Rowlands<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 60-65 a chyfandaliad o 185-190 | 2.5-5.0 a chyfandaliad o 7.5 - 10 | 1,429 | 1,392 | 52 | - |
| Claire Morgan<br>Cyfarwyddwr Strategol | 25-30 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 392 | 350 | 22 | - |
| Jassa Scott<br>Cyfarwyddwr Strategol | 30-35 a chyfandaliad o 0 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0 | 422 | 382 | 21 | - |
| Phillip Sweeney<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 20 -25 a chyfandaliad o 0 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 470 | 421 | 31 | - |

[5] archwiliwyd

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn cynnwys pedair rhan: tair sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% and 8.05% ar gyfer aelodau classic (ac aelodau alpha a oedd yn aelodau classic yn syth cyn ymuno ag alpha), a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Mae buddion yn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae classic plus yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â classic a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn premium. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronni yw 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a'r oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.


**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Iawndal am golli swydd**

**Pecyn Ymadael: Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael**

| Band costau pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd[6] | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band costau |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | - | - |
| **£25,000 - £50,000** | - | 1 | 1 |
| **£50,000 - £100,000** | - | - | - |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | - | 1 | 1 |



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2021

[6] Derbyniodd un aelod o staff iawndal o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Am mai un taliad a waned, nid yw cyfanswm y costau wedi'u datgan gan y byddai hyn yn peri adnabod yr unigolyn.

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Staff a gyflogir yn barhaol | Arall[1] | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| 2019-2020 | 106.73 | 5.91 | 112.64 |
| 2020-2021 | 105.89 | 1.59 | 107.48 |

Mae cyfraddau salwch staff fel a ganlyn:

| Prif fesurau staff | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **2019-2020** | **2020-2021** |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 2.6% | 2.3% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 49.2% | 24.8% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 6.5 | 5.1 |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 6.1 | 13.2 |
| Achlysuron absenoldeb salwch (newydd) | 112 | 39 |
| Cyfran o absenoldeb tymor hir | 49% | 75% |
| Absenoldeb tymor hir yw'r prif reswm dros y cynnydd sylweddol yn hyd absenoldeb | | |

Cyfanswm cyfradd salwch o 2.3% yn erbyn targed o <4%



[1] Mae staff arall yn cyfeirio at secondeion, staff contract cyfnod penodedig a staff asiantaeth.

## 2.3 Adroddiad archwilio

### Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu ariannol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg am gyflwr materion Estyn ar 31 Mawrth 2021 ac am ei wariant net a'i ddefnydd o adnoddau, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran y datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rydw i'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydw i wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod tystiolaeth yr archwiliad rydw i wedi'i chael yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwyddau perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu'n gyfunol, fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes

gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i’w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi’u disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae’r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a rhannau eraill o’r adroddiad blynyddol a archwilir, a’m hadroddiad fel archwilydd ar hynny. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddwyd i Estyn yn pennu cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i’w chyflwyno gyda’r datganiadau ariannol. Mae’r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall, a heblaw am y graddau a nodir yn eglur yn fy adroddiad fel arall, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad am sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried p’un a yw’r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi’u chamddatgan yn berthnasol. Os nodaf unrhyw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae’n ofynnol i mi benderfynu p’un a yw hyn yn peri camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i’r casgliad, ar y gwaith a gyflawnais, bod camddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae’n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w adrodd yn hyn o beth.

**Adrodd ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddwyd i Estyn yn pennu cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i’w chyflwyno gyda’r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol wedi cael ei baratoi’n unol â’r canllawiau.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae’r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y datganiad Llywodraethu, yn gyson â’r datganiadau ariannol.

Er nad oes gofynion deddfwriaethol i greu Adroddiad Cyflogau, mae Estyn wedi paratoi’r cyfryw adroddiad, ac yn fy marn i, mae’r rhan honno y mae fel arfer yn ofynnol ei harchwilio wedi cael ei pharatoi’n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

**Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol a ddarparwyd gyda’r datganiadau ariannol neu’r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w adrodd mewn perthynas â’r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu nad oes ffurflenni sy’n ddigonol i’m harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;

- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau a archwiliwyd yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn unol â hynny, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac o reolaeth fewnol o'r fath y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn pennu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol fel y bo'n berthnasol, a defnyddio sail cyfrifyddu'r busnes gweithredol oni bai y tybir bod hyn yn amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd oddi wrth gamddatganiad perthnasol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n sicrhau y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn unigol neu gyda'i gilydd yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, yr Archwilwyr Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Estyn sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll mewn postio cyfnodolion anarferol.

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Estyn yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Estyn yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith hanfodol ar weithrediadau Estyn.

Yn ogystal â'r uchod, mae fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r tîm Arweinyddiaeth; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Estyn, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, sef www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriedir gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adrodd

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
6 Gorffennaf 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Adran 3
## Datganiadau Ariannol



## 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | 2020-2021 | | | | 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Cyllideb** | **Alldro Gwirioneddol** | **Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu â'r Amcan (arbediad)/ dros ben** | **Alldro'r Flwyddyn Flaenorol** |
| **Adnoddau:** | | £000's | £000's | £000's | £000's |
| Costau staff | 2 | 9,000 | 8,913 | (87) | 8,811 |
| Dibrisiant | 5a & 5b | 200 | 147 | (53) | 146 |
| Costau eraill | 3 | 1,991 | 1,113 | (878) | 2,928 |
| Tâl Archwilwyr | 3 | 32 | 32 | - | 27 |
| **Costau gweithredu crynswth** | | **11,223** | **10,205** | **(1,018)** | **11,912** |
| Incwm gweithredu | 4 | - | (2) | (2) | (11) |
| **Gwariant Gweithredu am y Flwyddyn** | | **11,223** | **10,203** | **(1,020)** | **11,901** |

Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â'r Cynllun Blynyddol 2020-2021.

Datgenir ffigurau'r gyllideb fel yng Nghynllun Blynyddol Estyn 2020-2021.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 77 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | | 2020-2021 | | 2019-2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | **Nodyn** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | **5a & b** | 281<br>- | | 268 | |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | | 281 | | 268 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill derbyniadwy | **7** | 152 | | 335 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | **8** | 1,190 | | 1,273 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | 1,342 | | 1,608 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 1,623 | | 1,876 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | **9a&b** | (1,547) | | (1,821) | |
| Cyfraniad a dderbyniwyd ymlaen llaw | **9 c** | - | | (36) | |
| Darpariaethau o fewn blwyddyn | **10** | (176) | | (176) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | (1,723) | | (2,033) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | (100) | | (157) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | **10** | | | - | |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(100)** | | **(157)** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | (100) | | (157) | |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **(100)** | | **(157)** |


## 3.3 Datganiad o lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2020-2021 £000oedd | 2019-2020 £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | (10,203) | (11,901) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | 5a&b | | |
| Dibrisiant | | 147 | 146 |
| Costau eraill (darpariaeth) | 11 | - | - |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 9 a&b | (274) | 661 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn cyfraniadau a dderbyniwyd ymlaen llaw | 9 c | (36) | 36 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 7 | 183 | 58 |
| **Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | |
| Defnydd o ddarpariaeth TAW | | - | - |
| Credydwyr cyfalaf | 5 a&b | (12) | (57) |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(10,195)** | **(11,057)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 5 a&b | (148) | (207) |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(148)** | **(207)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| **Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)** | | **10,260** | **11,719** |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | 8 | **(83)** | **455** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 8 | **1,273** | **818** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 8 | **1,190** | **1,273** |

## 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| Datganiad o Newid i Ecwiti Trethdalwyr | | 2019-2020<br>£000oedd |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | 25 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (11,901) | |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig 2019-2020** | (11,901) | |
| **Cyllid Net Llywodraeth Cymru** | 11,719 | |
| | | (182) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **(157)** |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr 2020-2021** | | |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2020-2021** | (10,203) | |
| **Cyllid Net Llywodraeth Cymru** | 10,260 | |
| | | **57** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **(100)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 77 i 88 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

5 Gorffennaf 2021

## 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2020-2021 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2020-2021 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, cytunodd Estyn ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg. Caiff gwariant ar wasanaethau, trwyddedau a thanysgrifiadau sy'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol eu trin fel costau o fewn y flwyddyn ariannol y gwneir y taliad ynddi, lle nad yw'r trafodiad unigol yn fwy na £1,000.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). O ystyried na ddelir unrhyw eiddo, ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg. Lle mae gwerth asedau a brynir ar yr un pryd o'r un fath yn union, e.e. gliniaduron, byddant yn cael eu cyfalafu os yw cyfanswm y gwerth dros £10,000.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Offer TG | 3-5 mlynedd |
| • Dodrefn a Gosodiadau | 5 mlynedd |
| • Offer Swyddfa | 5 mlynedd |
| • Systemau TG | 5 mlynedd |
| • Asedau Anniriaethol | 3 blynedd |

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy’n debygol neu’n sicr o godi ond nad yw’r swm neu’r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i’r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor, o fewn blwyddyn a thymor canolig, rhwng dwy a phum mlynedd. Mae’r holl ddarpariaethau yn destun adolygiad blynyddol, i sicrhau eu bod yn parhau’n berthnasol a digonol i ariannu’r atebolrwydd penodol yn y dyfodol.

Mae’r ddarpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer y gwaith sy’n ofynnol i adfer yr eiddo yn ôl i’w gyflwr gwreiddiol cyn y denantiaeth. Mae hwn yn ofyniad yn y cytundeb les a gweithredir y cymal pan fydd Estyn yn gadael yr adeilad.

### 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy’n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn.

Yn bennaf, mae’n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy’n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â’i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar ‘Gostau eraill’ yn Nodyn 3 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### 1.7 Treth ar Werth

Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw’r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe’u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy’n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.10 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2021-2022. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.13 Gwyliau Cronedig

Cyfrifir am groniad gwyliau blynyddol staff yn Nhabl 2 - Costau staff. Mae'r croniad yn gyfrifiad i adlewyrchu'r gwyliau blynyddol net a oedd yn ddyledus neu sy'n ddyledus i staff ar ddiwedd y flwyddyn. Mae symudiad yn y flwyddyn bellach yn cael ei godi fel croniad o fewn cyflogau.

## 2 Costau staff

| | Cyfanswm 2020-2021 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000oedd | Eraill £000oedd | 2019-2020 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 6,313 | 6,313 | | 6,137 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 715 | 715 | | 700 |
| Costau pensiwn eraill | 1,729 | 1,729 | | 1,698 |
| **Cyfanswm costau net** | 8,757 | 8,757 | | 8,535 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i mewn | 91 | | 91 | 296 |
| Secondeion allan | (20) | | (20) | (142) |
| Staff asiantaeth | 24 | | 24 | 91 |
| Costau Cyfarwyddwyr Anweithredol | 15 | | 15 | 16 |
| Costau ymadael yn gynnar –yn y flwyddyn | - | | - | - |
| Costau arolygwyr cofrestredig[7] | 32 | | 32 | |
| Ardoll Brentisiaethau Levy | 14 | | 14 | 15 |
| **Cyfanswm** | **8,913** | **8,757** | **156** | **8,811** |

| **Taliadau i Gyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2020-2021** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **2020-2021 Cyfanswm £000oedd** | **2019-2020 Cyfanswm £000oedd** |
| R Alexander | 5 | 5 |
| J Fabian | 5 | 6 |
| A Thomas | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **15** | **16** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw (nodwch enw'r cyflogwr) yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2020-2021, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1.729m yn daladwy i'r PCSPS (2019-2020 £1.698m) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2020-2021 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

[7] Taliadau arolygwyr cofrestredig allanol drwy'r gyflogres

## 3 Costau eraill

| Gwariant | 2020-2021 £000oedd | 2019-2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: adeiladau | **139** | **125** |
| Costau adeiladau eraill | **157** | **197** |
| TG a thelathrebu | **521** | **613** |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | **18** | **17** |
| Teithio a chynhaliaeth | **22** | **688** |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **32** | **27** |
| Gwariant gweinyddol cyffredinol | **182** | **296** |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| - newid yn y ddarpariaeth ar gyfer adeiladau'n adfeilio | **-** | **-** |
| - dibrisiant asedau diriaethol | **147** | **146** |
| Cyfanswm gwariant gweinyddol cyffredinol | **1,218** | **2,109** |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 5) | **(2)** | **(11)** |
| **Isgyfanswm: Costau gweinyddol net** | **1,216** | **2,098** |
| Awdurdodau Addysg Lleol a Chostau cysylltiedig | **-** | **34** |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **-** | **-** |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **4** | **708** |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | **40** | **168** |
| Costau'r gylch gwaith | **-** | **14** |
| Costau uniongyrchol y Prosiect Hunanwerthuso[8] | **30** | **68** |
| **Isgyfanswm: Costau rhaglenni** | **74** | **992** |
| **Cyfanswm y costau eraill** | **1,290** | **3,090** |
| **Cyfanswm y Costau eraill heb Incwm a dibrisiant** | **1,145** | **2,955** |

Yn gynwysedig yn y 'costau adeiladau eraill' uchod ceir taliadau o £22,000 yn ymwneud â gwasanaethau glanhau wedi'u contractio. Ar gyfer rhannau o'r flwyddyn, roedd swyddfeydd Estyn ar gau ac ni dderbyniwyd gwasanaethau glanhau llawn.

Yn unol â Hysbysiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru, parhawyd i wneud taliadau yn ystod y cyfnodau hyn. Mae detholiad o'r canllawiau yn darllen: "Dylai awdurdodau contractio weithredu nawr i gefnogi cyflenwyr dan risg fel eu bod yn gallu ymdopi'n well â'r argyfwng presennol ac ailddechrau darparu gwasanaethau arferol a chyflawni'u rhwymedigaethau contractiol pan fydd y brigiad o achosion ar ben" a "Dylai'r holl awdurdodau contractio yng Nghymru… barhau i dalu cyflenwyr mor gyflym ag y bo modd, pan dderbynnir anfonebau neu yn unol â dyddiadau cerrig milltir a gytunwyd ymlaen llaw, er mwyn cynnal llif arian a diogelu swyddi."

[8] Mae'n cynnwys amser ymarferwyr o ysgolion, costau cyfieithu a chostau cyfathrebiadau

## 4 Incwm

| Incwm | 2020-2021 £000oedd | 2019-2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | (1) | (2) |
| Amrywiol | (1) | (9) |
| **Cyfanswm** | **(2)** | **(11)** |

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn gymharol fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

## 5a Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Offer TG £000oedd | Dodrefn a Gosod-iadau £000oedd | Offer swyddfa £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **742** | **305** | **3** | **1,050** |
| Ychwanegiadau | 59 | - | - | 59 |
| Gwarediadau | (25) | - | - | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **776** | **305** | **3** | **1,084** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 499 | 280 | 3 | 782 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 129 | 18 | - | 147 |
| Gwarediadau | (25) | - | - | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **603** | **298** | **3** | **904** |
| **Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2021** | **173** | **7** | **-** | **180** |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **243** | **25** | **-** | **268** |

## 5b Asedau Anniriaethol

| | Meddalwedd £000oedd | Deunydd-iau Hyfforddi £000oedd | Systemau TG £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **11** | **21** | **196** | **228** |
| Ychwanegiadau | - | - | 101[9] | 101 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **11** | **21** | **297** | **329** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 11 | 21 | 196 | 228 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **11** | **21** | **196** | **228** |
| **Swm i'w gario ar 31 Mawrth 2021** | **-** | **-** | **101** | **101** |
| Ar 1 Ebrill 2020 | **-** | **-** | **-** | **-** |

[9] Yr ased yn y cyfnod datblygu o hyd felly ni chyfrifwyd am unrhyw ddibrisiant yn 2020-2021.

## 6 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog ac arian tramor

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 7 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### 7a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31/03/2021 £000oedd | Ar 31/03/2020 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | - | 197 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 152 | 138 |
| **Cyfanswm** | **152** | **335** |

### 7b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | Ar 31/03/2021 £000oedd | Ar 31/03/2020 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 21 | 218 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | - | - |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 131 | 117 |
| **Cyfanswm** | **152** | **335** |

## 8 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2021 £000oedd | 31 Mawrth 2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Balans | 1,273 | 818 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (83) | 455 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **1,190** | **1,273** |

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu un cyfrif banc. Mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS, casglu incwm BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balans canlynol ar gael ar 31 Mawrth 2020 a 31 Mawrth 2021:

| | 31 Mawrth 2021 £000oedd | 31 Mawrth 2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Balans yn NatWest | 1,190 | 1,273 |
| **Cyfanswm** | **1,190** | **1,273** |

## 9 Masnach a symiau taladwy eraill

### 9a Dadansoddiad yn ôl math

| | 31 Mawrth 2021 £000oedd | 31 Mawrth 2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Symiau taladwy masnach | 310 | 673 |
| Cyllid y gyflogres | 1,237 | 1,148 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | - | - |
| | 1,547 | 1,821 |

### 9b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | 31 Mawrth 2021 £000oedd | 31 Mawrth 2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 757 | 853 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | 86 | 134 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 704 | 834 |
| **Cyfanswm** | **1,547** | **1,821** |

## 9c Cyfraniad at gostau a dderbyniwyd ymlaen llaw

| Cyfraniad at gostau a dderbyniwyd ymlaen llaw | 31 Mawrth 2021 £000oedd | 31 Mawrth 2020 £000oedd |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog[10] | - | 36- |
| Balansau ag awdurdodau lleol | - | - |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | - | - |
| **Cyfanswm** | - | 36- |

## 10 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles

| Darpariaethau | Adnewyddu adeiladau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2020 | | |
| - O fewn blwyddyn | 176 | 176 |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | - | - |
| - Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth | - | - |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Darpariaeth sy'n weddill: | 176 | 176 |
| - O fewn blwyddyn | 176 | 176 |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | - | - |
| - Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2021[11] | 176 | 176 |

[10] Cafodd cyfraniad at gostau a dderbyniwyd ymlaen llaw ei ad-dalu yn 2020-2021 gan and oedd angen unrhyw wasanaethau gan AGC o ganlyniad i'r pandemig.
[11] Cafodd y ddarpariaeth adeiladau ei hail-asesu gan syrfëwr proffesiynol ym mis Mawrth 2021.

## 11 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2021.

## 12 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

| | 2021 Land & Buildings £000's | 2020 Land & Buildings £000's |
|---|---|---|
| At 31 March 2021 Estyn was committed to making the following payments during future years in respect of operating leases expiring: | | |
| - within one year | 34 | 124 |
| - between two and five years | - | - |
| - after five years | - | - |
| **Total** | **34** | **124** |

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ond na fydd yn dod i rym hyd nes 1 Ebrill 2022, yn mynnu bod yr holl brydlesi â chyfnod prydles heb fod yn fwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Pe bai'r safon hon wedi bod yn weithredol ar gyfer 2019-2020, byddai cynnydd o £34,000 wedi bod mewn asedau a rhwymedigaethau. Mae'r brydles yn dod i ben yn 2020-2021.

Rydym bellach dan ymrwymiad treigl am gyfnod o 3 mis wedi'i ohirio, fel y llywodraethir gan ddarpariaethau Deddf Landlord a Thenant 1954. Daeth ein prydles i ben yn Chwefror 2021 ond o dan IFRIC 4 mae'r trefniant presennol yn cael ei ystyried yn brydles o hyd.

## 13 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2021 (nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2020).

## 14 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2021 (nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol ar 31 Mawrth 2020).

## 15 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti sy'n gysylltiedig ag Estyn. Dyma drafodion perthnasol â Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-2021:

- cyllid o £10.26 miliwn gan Lywodraeth Cymru (£11.719 miliwn 20219-2020)
- talom £8.783 miliwn i Lywodraeth Cymru, yn bennaf i ad-dalu cyflogau staff a didyniadau cyfatebol y maent yn eu talu ar ein rhan (£7.794 miliwn yn 2019-2020)

- croniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021 oedd £748,000 (£725,000 2019-2020) ac nid oedd unrhyw ddyledwyr (£196,000 2019-2020).

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 16 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

## Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| ACof | Arolygydd Cofrestredig |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| AEM | Arolygydd Ei Mawrhydi |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ARAC | Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd |
| ASC | Llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifyddu |
| ASCL | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau |
| AW | Archwilio Cymru |
| BACS | Gwasanaethau Clirio Awtomataidd y Banciau |
| BIBESOIN | Better Inspection for Better Social Inclusion |
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CSOPS | Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill |
| CWLWM | Childcare Wales Learning and Working Mutually |
| CYPE | Children, Young People and Education |
| DOG | Dysgu oedolion yn y gymued |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| EAS | Gwasanaeth Cyflawni Addysg (consortiwm De-ddwyrain Cymru) |
| ERW | Ein Rhanbarth ar Waith (consortiwm Gorllewin Cymru) |
| FDA | Cymdeithas Gweision Sifil Adran Gyntaf |
| FOIA | Deddf Rhyddid Gwybodaeth |
| FReM | Y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol |
| GAALI | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol |
| GBS | System Bancio'r Llywodraeth |
| GwE | Gogledd Cymru (consortiwm Gogledd Cymru) |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| IPAC | Pwyllgor Cynghori ar Arolygu a Pholisi |
| ISAs(DU) | Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig |
| ITE | Addysg gychwynnol athrawon |
| NASUWT | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau |
| NED | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| NEIR | Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol |
| NEU | Yr Undeb Addysg Cenedlaethol |
| NTfW | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| PAEM | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCS | Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| PLD | Dysgu a datblygu proffesiynol |
| PLJ | Taith dysgu proffesiynol |
| SCS | Uwch Wasanaeth Sifil |
| SICI | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau |
| SoFFP | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol |
| TAW | Treth ar Werth |
| UCAC | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |
| YAR | Ystafell arolygu rithwir |

# Atodiad 2: Adroddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Bu'n flwyddyn o newidiadau cyflym a heriau i'n rhanddeiliaid ac i ni wrth i effaith COVID-19 ledu. Mae ein hymateb i'r pandemig wedi cynnwys llawer o weithio mewn partneriaeth, cydweithio ac ymglymiad, gan ddod o hyd i atebion arloesol a ffyrdd newydd o weithio, cynyddu ein defnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau a lleihau ein hallyriadau carbon. Rydym wedi gorfod mynd i'r afael â'r adferiad tymor byr yn ogystal â rheoli heriau tymor hwy. Mae lles wedi bod yn ganolog i'n gwaith trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn ar les hwn yn rhoi diweddariad ar ein cynnydd o ran cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[12] ('y Ddeddf'). Mae'r adroddiad yn dangos sut mae ein hamcanion strategol yn cyfrannu at y nodau lles ar gyfer Cymru, ac yn esbonio sut rydym ni'n gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Y Ddeddf

Mae'r Ddeddf yn amlinellu diben a rennir i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaol i ni gyd. Cynrychiolir y diben a rennir gan set integredig o saith o nodau llesiant.

**Cymru lewyrchus**

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth**

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.

**Cymru iachach**

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

---

[12] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae'r Ddeddf yn pennu '**egwyddor datblygu cynaliadwy**' hefyd, sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio gwerth atal problemau rhag digwydd yn hytrach na mynd i'r afael â nhw ar ôl iddynt ddod i'r amlwg. Ei nod yw cyfuno materion polisi, fel iechyd y cyhoedd, addysg, newid hinsawdd a ffyniant economaidd, ac mae'n mandadu bod rhaid i bob polisi gyfrannu at gynaliadwyedd a pheidio â thanseilio nodau hirdymor.

Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

| | |
|---|---|
| • Y tymor hir – pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor<br>• Atal – sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion<br>• Integreiddio – ystyried sut y gall amcanion llesiant corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill | • Cydweithio – gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles<br>• Cynnwys – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu |

## Ein ‘hamcanion lles’

Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf ddatblygu amcanion lles ac adrodd arnynt.

Rydym wedi bod yn gwreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y defnyddiwn ein hadnoddau ers blynyddoedd lawer. Er nad yw’r ddyletswydd yn berthnasol i ni (nid yw Estyn yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf – gan ymgorffori’r elfennau lles a’r egwyddor datblygu cynaliadwy – yn ein cynllunio, llywodraethu a chyflawni gweithredol, ac yn y modd yr ydym yn arwain, yn cyfathrebu ac yn cynnwys ein staff a rhanddeiliaid.

Ym Mai 2020, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yr Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol cyntaf. Mae’r adroddiad yn dadansoddi cynnydd cyrff cyhoeddus rhestredig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) ers iddi ddod yn gyfraith yn 2015.

Mae ein ‘hamcanion strategol – sy’n ysgogi popeth a wnawn – yn gweithio’n dda fel ein ‘hamcanion lles’ ac yn ein helpu i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ar draws ein sefydliad. Er enghraifft, rydym yn cysylltu ein hamcanion strategol gydag amcanion tîm ac amcanion personol.

Mae ein hamcanion strategol/lles yn rhai parhaus a byddant yn parhau yn ein Cynlluniau Blynyddol a Chyfrifon am nifer o flynyddoedd.

## Sut rydym ni’n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

## Amcan Strategol 1:

### Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Yn sgil y cyfnod o newidiadau cyflym a heriau oherwydd COVID-19, fe wnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill agor neu gau nifer o weithiau i’r holl ddysgwyr. I ymateb i hyn, penderfynom, mewn cytundeb â swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, atal arolygiadau o ganol mis Mawrth 2020. Ailgyfeiriom ein harolygwyr i weithio ar ystod o weithgareddau i gynorthwyo darparwyr a system addysg Cymru. Ar yr adeg hon, symudodd yr uwch dîm rheoli a staff y swyddfa i weithio gartref (mae Arolygwyr EM yn gweithio gartref bob amser). Roeddem mewn sefyllfa gref i ymateb i’r argyfwng hwn, diolch i’r ‘cynllun pontio’ yr oeddem eisoes wedi’i gyhoeddi yn ein Cynllun Blynyddol 2019-2020. Yn gynllun â thri cham iddo, y cyntaf oedd y byddai blwyddyn academaidd 2020-2021 (yn dechrau ym Medi 2020) yn ‘flwyddyn bontio’ ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau. Roedd arolygiadau o sampl o ysgolion i’w disodli gan ‘ymweliadau ymgysylltu’ â phob ysgol. Ni wnaethom newid ein cynllun i i atal arolygiadau o ysgolion a gynhelir ac UCDau yn rhannol, a defnyddiom 2020-2021 fel blwyddyn bontio, gan ymgymryd â galwadau ffôn ymgysylltu.

**Cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn**

Gydag arolygiadau wedi'u hoedi, mae ffocws ein gwaith craidd wedi newid, ond mae ein nod i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau, yn parhau'r un fath ochr yn ochr â rhoi blaenoriaeth i les pobl.

O ganol mis Mawrth ymlaen fe wnaethom adleoli staff i Lywodraeth Cymru ac maent wedi bod yn Cefnogi parhad dysgu i blant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun Parhad Dysgu yn canolbwyntio ar ddysgu o bell a'i nod yw sicrhau bod dysgu yn eang a chytbwys, yn cefnogi iechyd a lles meddwl ac emosiynol dysgwyr ac yn galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd ystyrlon. Fe wnaethom gyfrannu at bron pob agwedd ar y cynllun sy'n amcanu at gefnogi lles a sicrhau y gall disgyblion barhau i ddysgu tra nad ydynt yn gallu mynychu'u hysgol arferol, UCD, coleg neu ddarparwr addysg a hyfforddiant arall.

Cyhoeddom ystod o ganllawiau yn ymwneud â'r pandemig yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o alwadau ymgysylltu, gan gynnwys cameos o arfer ddiddorol. Mae'r canllawiau a amlinellir isod yn cyfrannu'n sylweddol at y nodau llesiant ar gyfer Cymru.

**Sut mae ein canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19 yn cyfrannu at nodau llesiant Llywodraeth Cymru**

**Ein diben cyffredin – y saith nod llesiant ar gyfer Cymru**

Cymru Lewyrchus (1)
Cymru Gydnerth (2)
Cymru Iachach (3)
Cymru sy'n Fwy Cyfartal (4)
Cymru o Gymunedau Cydlynus (5)
Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu (6)
Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang (7)

1 2 3 4 5 6 7

**Canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19 a gyhoeddwyd yn 2020 -2021**

Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19

Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD

Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd

Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o UCDau

Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion uwchradd

| |
|---|
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion arbennig |
| Cameos a syniadau ar gyfer parhad busnes ysgol yn ystod Covid-19 |
| Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol |
| Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19 |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach |
| Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith |
| Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector cynradd – hydref 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector uwchradd – hydref 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) – hydref 2020 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020 |
| Adroddiad interim y sector uwchradd – Ionawr a Chwefror 2021 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Gwanwyn 2021 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas cynhelir – Tymor y Gwanwyn 2021 |
| Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar ysgolion arbennig a gynhelir ac UCD – Tymor y Gwanwyn 2021 |
| Gwaith Ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor y Gwanwyn 2021 |

Mae ein cyfraniad uniongyrchol at y nodau llesiant yn eithaf eglur ar draws llawer o'r nodau.  O ran **Cymru gydnerth**, o ganlyniad i symud i weithio ar-lein gyda fawr ddim teithio, mae pob sefydliad wedi cynyddu capasiti i gyflawni gyda mantais iechyd a lles peidio cymudo.  Mae systemau ar-lein wedi arwain at fwy o weithio di-bapur gydag effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.  Mae'n debygol y bydd gweithio fel hyn ar-lein, ac yn wir ehangu'r dechnoleg hon, yn parhau i ryw raddau yn y dyfodol, gan gynyddu ein cyfraniad at Gymru gydnerth.

O ran **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**, mae ffyrdd newydd o weithio ar-lein wedi ein galluogi i barhau â'n gwaith gydag arolygiaethau Estonia, Fflandrys, Malta, Cyprus, a darparwr addysg uwchradd yn Sbaen ac IH2EC Ffrainc ar y prosiect "Better Inspection for Better Social Inclusion" (BIBESOIN).  Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar rannu arfer a datblygu fframwaith hunanwerthuso ac arolygu i werthuso sut mae ysgolion prif ffrwd yn sicrhau tegwch i blant sy'n agored i anfantais.

# Amcan Strategol 2:

## Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Mae gan Estyn rôl allweddol yn llywio a datblygu polisi cenedlaethol.  Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ac adolygiadau thematig i lywio polisi cenedlaethol, a chyfrannu'n weithgar ar nifer o weithgorau Llywodraeth Cymru.  Roedd nifer o'r adolygiadau thematig hyn yn ymwneud â'r pandemig y llynedd.

**Cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn**

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyfrannu'n sylweddol at **Gymru lewyrchus,** ac at lawer o'r nodau lles eraill fel **Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal** a **Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.**  Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol yn Rhagfyr 2020, ac roedd yn cynnwys adroddiadau sector sy'n rhoi adolygiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Roedd hefyd yn cynnwys adran thematig a oedd yn cydnabod effaith y pandemig ar addysg a hyfforddiant.

Mae adolygiadau thematig a gweithgorau Estyn yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at y nodau lles.  Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2020-2021 a'u cyfraniad at y nodau lles wedi'u rhestru isod.

## Sut mae ein hadroddiadau thematig yn cyfrannu at nodau lles Llywodraeth Cymru

### Ein diben cyffredin – y saith nod llesiant ar gyfer Cymru

| Cymru Lewyrchus (1) | Cymru Gydnerth (2) | Cymru Iachach (3) | Cymru sy'n Fwy Cyfartal (4) | Cymru o Gymunedau Cydlynus (5) | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu (6) | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |

### Adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn 2020-2021

- Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf
- Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion
- Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol
- Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19
- Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch
- Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant
- Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid
- Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos o ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig
- Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19
- Partneriaethau ôl-16
- Caffael y Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr

| | |
|---|---|
| Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd | |
| Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr | |
| Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol | |

## Amcan Strategol 3:

### Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

I gefnogi ein cenhadaeth 'i gynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu' rydym wedi pennu trydydd amcan strategol i ni'n hunain i '**feithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru**'.

**Cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn**

I gefnogi **Cymru lewyrchus**, amcanwn i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau. I'r perwyl hwn, ac i gefnogi nifer o'r nodau lles eraill, rydym yn meithrin gallu wrth ddarparu addysg a hyfforddiant trwy gynadleddau arfer effeithiol, digwyddiadau rhanddeiliaid, a chyhoeddi adnoddau gwella ar ein gwefan.

Mae adnoddau gwella yn cynnwys adroddiadau thematig, arfer effeithiol a chymorth i Gymru ddal ati i ddysgu.

Fel rhan o genhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu prosiect o'r enw adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol ar gyfer ysgolion (NEIR). Nod ein gwaith yw gwella addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a chyfrannu at **Gymru lewyrchus**.

Un enghraifft o astudiaeth achos arfer effeithiol sy'n cyfrannu at **Gymru lewyrchus** yw Defnyddio modelau rôl gwrywaidd i wella medrau ysgrifennu bechgyn. Mae'r adroddiad thematig Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig yn berthnasol hefyd.

Rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos arfer effeithiol yn gysylltiedig â **Chymru iachach** hefyd, er enghraifft, Cymorth ar gyfer lles yn ystod y cyfnod pontio o'r sector cynradd i'r uwchradd. Yn yr astudiaeth achos hon, mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cryf â'i hysgolion cynradd partner, gan ddarparu ffocws clir ar hyrwyddo lles a gwydnwch disgyblion newydd. Cyhoeddiad perthnasol arall yw'r adroddiad thematig Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.

I gefnogi **Cymru o gymunedau cydlynus**, mae Ymweliadau lleol yn meithrin balchder yn y gymuned a dealltwriaeth o'r byd yn astudiaeth achos sy'n disgrifio lleoliad yn gwneud y mwyaf o'i berthynas â'r gymuned leol i greu profiadau dysgu i'r plant. Yn ogystal, rydym wedi blogio, yn gofyn A yw eich ysgol yn un sy'n rhoi

teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith? Ac wedi cyhoeddi adroddiadau thematig ar Partneriaethau Ôl-16 ac Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol.

O ran **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**, mae astudiaethau achos diweddar o arfer effeithiol yn y maes hwn yn cynnwys Mae gan y bartneriaeth Cymraeg i oedolion rôl allweddol mewn hyrwyddo dwyieithrwydd a Cyflenwi model newydd ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Yn werth ei nodi hefyd yw'r blog Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol a'r adroddiadau thematig Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf a Caffael y Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr.

I gefnogi Cymru fwy cyfartal, mae'r astudiaeth achos Caiff rhaglenni dysgu unigol eu teilwra i gefnogi anghenion dysgwyr yn tynnu sylw at ddull coleg o greu rhaglenni dysgu sydd wedi'u gwahaniaethu'n sylweddol. Mae Athroniaeth cynhwysiant yn astudiaeth achos am ysgol sy'n credu bod hawl gan bob myfyriwr i lwybr unigol, sydd, i lawer o ddisgyblion, yn cael ei gynnwys mewn lleoliad prif ffrwd am ran o'r wythnos. Mae'r adroddiadau thematig yn y maes hwn ar Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant a Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**: fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi gwelliant byd-eang trwy weithio â'n cymheiriaid, yn 2020-2021, parhaom i weithio ar y cyd ag aelodau Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), sy'n cynnwys 37 o arolygiaethau addysg ledled Ewrop. Mynychom nifer o weithdai a gynhaliwyd ar-lein gan SICI, er enghraifft ar y modd y mae arolygiaethau wedi addasu'u modelau arolygu a gwerthuso yn ystod y pandemig, ar addysgu a dysgu o bell, a dulliau arolygu dysgu cyfunol ac arferion asesu. Ym Mawrth 2021, cefnogom SICI trwy gymedroli trafodaeth banel am y meysydd diddordeb hyn rhwng pum gwlad, a fynychwyd gan ryw 115 o gynrychiolwyr o bob cwr o'r byd.

## Sut y cyflawnwn ein gwaith

### Meithrin sefydliad gwell a byw ein gwerthoedd

Rydym yn amcanu at adeiladu ar y trefniadau cadarn sydd eisoes ar waith i sicrhau ein bod yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'n cyllideb yn unol â fframwaith ac egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu staff mewn amgylchedd cefnogol ac ymddiriedus a fydd yn helpu cynnal ein lefelau ymgysylltiad uchel ac yn gwella ein gallu i arwain ymhellach.

Rydym yn gweithio gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru, y DU ac Ewrop, gyda nod cytûn o gefnogi deilliannau gwell i bobl, drwy geisio gwarchod eu buddiannau bob amser drwy adrodd ar y gwasanaethau cyhoeddus sy'n disgyn o fewn ein cylch gwaith heb ofn na ffafraeth. Trwy gydweithio â'n gilydd yn effeithiol, gellir gwella'r effaith y gallwn ei chael ar bobl ar y cyd.

Mae ein rhanddeiliaid yn ganolog i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth i gynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu drwy ein gwaith arolygu ac ymgysylltu, ein cyngor, a meithrin gallu.

**Cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn**

Rydym wedi ymrwymo i **Gymru lewyrchus** ac annog lles lleol. Dyma rai enghreifftiau o'n harferion arferol bob dydd yn y maes hwn. Yn Estyn, rydym yn cefnogi cyflog byw ac mae pawb sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym ni yn cael cyflog ar raddfeydd uwchlaw'r cyflog byw. Rydym yn secondio staff i mewn ac allan o Estyn ac yn defnyddio staff asiantaeth lleol i rannu gwybodaeth a datblygu medrau trosglwyddadwy. Rydym yn cefnogi aelodaeth o undebau llafur ac yn cynnwys undebau yn y dulliau yr ymgynghorwn â staff. Mae ein polisi caffael ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn ystyried cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol yn hytrach na chost yn unig. Defnyddiwn gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau lleol ac rydym yn talu cyflenwyr yn brydlon; mae gennym dargedau i fonitro hyn. Hefyd, amcanwn at ddefnyddio lleoliadau lleol yng Nghymru i gynnal digwyddiadau. Rydym yn cyfrifo ac yn cyhoeddi ein hôl-troed carbon yn flynyddol yn ein hadroddiad amgylcheddol, ac mae gennym darged i'w leihau er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru am sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Rydym yn cydnabod bod **iechyd a lles** cyflogeion yn gwneud cyfraniad hanfodol at lwyddiant busnes ac yn helpu unigolion i fyw bywyd i'r eithaf. Rydym yn cyhoeddi Polisi iechyd a lles, Polisi ac arweiniad ar gyfer rheoli straen a lles yn y gweithle ac yn darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Mae ein gwaith hyrwyddo iechyd a lles ein staff wedi'i gydnabod trwy gyflawni Gwobr Arian y Safon Iechyd Gorfforaethol.

Rydym yn hyrwyddo buddion gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac yn cefnogi hyn gyda chawodydd ar y safle, lle storio beiciau yn ddiogel a Chynllun Beicio i'r Gwaith. Rydym hefyd yn cynnig ychydig o amser i staff yn ystod yr wythnos waith i ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n cyfoethogi eu hiechyd meddwl a/neu eu hiechyd corfforol drwy 'awr lles'.

Rydym yn gwerthfawrogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn ystyried pob cais am weithio'n hyblyg, gan gynnwys gwaith rhan-amser, rhan o'r flwyddyn (yn ystod y tymor yn unig), rhannu swyddi, oriau cywasgedig, oriau blynyddol, a rhan-ymddeoliad. Darparwn amser i staff fynychu apwyntiadau'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles (gan gynnwys brechlynnau COVID-19) ac rydym yn ad-dalu cost y brechlyn yn erbyn y ffliw i'r staff.

Nod Estyn yw datblygu diwylliant lle gall staff siarad yn agored am faterion iechyd meddwl, ac ym Medi 2020, ymrwymom i'r Adduned Amser i Newid. Mae ein Hyrwyddwyr Amser i Newid wedi sefydlu sesiynau dal i fyny gyda choffi bob mis ar gyfer staff, sy'n canolbwyntio ar les.

Caiff un enghraifft o arfer effeithiol yn y maes hwn ei chipio yn ein hastudiaeth achos Datblygu rhaglen addysg awyr agored sy'n cyfeirio at goleg sy'n defnyddio eu rhaglen addysg a gweithgareddau awyr agored i ddatblygu lles ysbrydol, deallusol a chorfforol disgyblion. Mae Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn adroddiad thematig diweddar sy'n rhoi trosolwg o sut mae colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y

gymuned wedi rhoi cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn ystod y pandemig.

Nod ein holl weithgareddau yw cyfrannu at **Gymru sy'n fwy cyfartal** lle gall pobl gyflawni'u potensial. Rydym wedi ymgynghori ar a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mae ein polisi sy'n ystyriol o deuluoedd yn cyflwyno'r buddion a'r gefnogaeth statudol ac estynedig y bydd Estyn yn eu darparu i weithwyr sy'n rhieni neu'n cael baban. Mae ein Polisi gweithio'n hyblyg yn cynnig ystod o opsiynau gweithio'n hyblyg gan gynnwys gweithio gartref, gweithio'n rhan-amser, oriau cywasgedig, rhannu swydd, gweithio rhan o'r flwyddyn, oriau blynyddol ac amser hyblyg. Caiff y rhain eu cyfleu i staff yn rheolaidd ac rydym yn monitro ceisiadau am weithio'n hyblyg a'r deilliannau.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ar Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd yn mapio ffordd ymlaen o ran sut – ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad – y caiff profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru eu gwneud yn annatod. Byddwn ni'n gyfrifol am ddwyn dau argymhelliad yn eu blaenau yn yr adroddiad (42 a 43).

Rydym yn llunio arweiniad arfer effeithiol ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a cheir enghreifftiau ohonynt ar ein gwefan drwy chwilio o dan y tag 'cydraddoldeb ac amrywiaeth'.

Rydym hefyd yn cynhyrchu Adroddiad archwiliad cyflog cyfartal (bob tair blynedd) fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i fonitro cydraddoldeb a darparu dadansoddiad ac argymhellion mewn perthynas â rheoli dyfarniadau, polisi ac arfer ein staff.

Mae ein hymrwymiad i **Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** wedi'i wreiddio mewn arferion gweithio ac mae ei polisi iaith Gymraeg yn dangos sut rydym yn bodloni gofynion safonau'r Gymraeg. Rydym yn parhau i ddatblygu ac adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ac yn cefnogi hyfforddiant Gymraeg i staff er mwyn gwella ein gwasanaethau Cymraeg. Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r coma Cymraeg ar eu llofnodion e-bost ac yn gwisgo'r cortynnau coma Cymraeg. Mae holl fannau mynediad Estyn yn cynnig cyfarchion dwyieithog. Rydym hefyd yn asesu'r angen am y Gymraeg fel rhan o ddatblygu swydd-ddisgrifiadau.

Rydym yn defnyddio cyfieithwyr cymwys sy'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg, ac i ddatblygu gwybodaeth ddwyieithog.

Rydym wedi ymrwymo i **Gymru o gymunedau cydlynus**. Mae ein staff yn gefnogwyr brwdfrydig i ddigwyddiadau elusennol, gan godi miloedd o bunnoedd ar gyfer nifer o achosion da dros y blynyddoedd diwethaf. Yng Ngorffennaf 2020, fe wnaeth llawer o staff godi arian ar gyfer her rithwir 3 Chopa Cymru gyntaf erioed Tŷ Hafan.

Mae Estyn yn cefnogi cyflogeion sydd eisiau cyfrannu at y gymuned ehangach. Felly, caniateir absenoldeb arbennig gyda thâl fel arfer i alluogi cyflogeion i wasanaethu'r gymuned drwy wirfoddoli, cyflawni dyletswyddau cyhoeddus, mynychu gwasanaeth rheithgor neu wasanaethu yn yr adfyddinoedd.

Un enghraifft o **Gymru o gymunedau cydlynus** yw'r astudiaeth achos Mae medrau bywyd disgyblion yn datblygu o'u gwaith cymunedol. Mae Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol yn adroddiad thematig diweddar sy'n edrych ar waith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19.

O ran **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** a **Chymru gydnerth**, mae Estyn yn rhoi ffocws ar ddatgarboneiddio a defnyddio a chynhyrchu'n gynaliadwy trwy gaffael cynhyrchion a gwasanaethau, ac mae ganddo ymrwymiad i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau. Y rhain yw'r meysydd lle gall Estyn wneud y cyfraniad mwyaf at gynnal a gwella bioamrywiaeth a dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae ein Adroddiad amgylcheddol (yn cynnwys adrodd ar y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau) Tachwedd 2020) yn cynnwys yr hyn rydym wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, ac mae'n darparu manylion y tu hwnt i'r adroddiad hwn ar les. Bydd y broses o gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 yn ein helpu i hybu ein cyfraniadau at y nodau lles.

Mae ein huwch dîm rheoli yn ymroi i ddylanwadu ar, a hyrwyddo, cyfrifoldeb amgylcheddol o fewn ein gweithrediadau. Caiff Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ei dyfarnu i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli'u heffeithiau ar yr amgylchedd. Diolch i gefnogaeth ein staff, rydym wedi cael ailachrediad at lefel 3 y safon hon ers 2007.

## Egwyddor datblygu cynaliadwy:

### Nod ein gwaith yw sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori wrth graidd popeth a wnawn.

Mae rhywfaint o'n gwaith allweddol yn cysylltu â phog agwedd ar yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' gyda'r nod o atal problemau, dod o hyd i atebion hirdymor, integreiddio â pholisi cenedlaethol, cydweithio a chynnwys pobl. Er enghraifft, bu'n fwriad gennym erioed i atal arolygiadau yn rhannol yn 2020-2021, ac yn ystod y flwyddyn hon, treulio diwrnod yn ymweld â phob ysgol a gynhelir ac UCD i weld i ba raddau y maen nhw'n dechrau cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac adeiladu darlun cenedlaethol o beth sy'n gweithio'n dda ac unrhyw heriau sy'n dod i'r amlwg.

Oherwydd y pandemig, ailbennwyd pwrpas yr ymweliadau ymgysylltu cynlluniedig hyn (a'n cylch gwaith ar gyfer 2020-2021) i gynorthwyo ysgolion i ymadfer o'r sefyllfa bresennol. Nodom ddysgu a darparu cyngor annibynnol a thystiolaeth i gefnogi cynllunio cychwynnol ar gyfer parhad dysgu mewn ysgolion ac yn y sectorau ôl-16, ac fe wnaethom lywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i gynorthwyo adferiad y system addysg o'r pandemig.

Dyma rai meysydd penodol o'n gwaith sy'n dangos y pum ffordd o weithio.

#### Cynnwys a chydweithio

Rydym yn **cynnwys** partneriaid allanol ac yn **cydweithio** â phartneriaid allanol yn rheolaidd. Rydym yn rhannu arfer ac yn cydweithio ag ystod o sefydliadau

llywodraeth, arolygiaethau a chyrff eraill sy'n gysylltiedig ag addysg yng Nghymru a thu hwnt er mwyn datblygu ein golwg o systemau addysg ledled y Deyrnas Unedig a'r byd. Rydym yn gweithio'n anffurfiol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, Cymwysterau Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i rannu arfer a gwybodaeth yn ymwneud â thestunau ymchwil ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Hefyd, parhaom i weithio ar y cyd ag aelodau Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI), sy'n cynnwys 37 o arolygiaethau o bob cwr o Ewrop.

Mae hunanwerthuso wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd rydym yn eu datblygu i gefnogi a chysoni â'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac ysgolion i ddatblygu'r 'Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol' (NEIR). Mae cydweithio a chynnwys yn parhau yn allweddol wrth ddatblygu a chyflwyno'r adnodd hwn i ysgolion yng Nghymru.

Rydym hefyd yn **cydweithio** gydag ystod o randdeiliaid i gynnal adolygiadau thematig, darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth yn fwyaf nodedig, ac rydym yn **cynnwys** y rheiny â buddiant mewn gwella addysg, yn cynnwys dysgwyr eu hunain.

Yn ystod 2020, cyhoeddom adolygiadau thematig a gyfrannodd at ein gwaith ar **gydweithio**: mae Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol yn cynnwys negeseuon allweddol ac astudiaethau achos i gynorthwyo ysgolion i wella eu ffocws cymunedol a harneisio pŵer ysgolion, teuluoedd a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae Partneriaethau Ôl-16 yn ymwneud â rhannu cynllunio a darpariaeth rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau.

Mae astudiaethau achos arfer effeithiol sy'n ymwneud â **chynnwys** a **chydweithio** yn cynnwys Mae diddordebau plant yn arwain gweithgareddau dysgu lle mae staff wedi dyfeisio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddidordebau plant, a Cymorth effeithiol yn helpu dysgwyr i siarad Cymraeg yn rhugl lle mae cynnal perthynas waith gadarnhaol â dysgwyr wedi helpu'r darparwr i gynnal cyfradd gadw uchel.

Mae Estyn yn dymuno **cynnwys** pobl yn ein gwaith a'i nod yw cynhyrchu dogfennau sy'n glir, yn gywir ac mewn Saesneg a/neu Gymraeg clir fel gofyniad sylfaenol i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu darllen a deall ein cyhoeddiadau. Rydym yn parhau i amcanu at arddull glir o ysgrifennu adroddiadau a fydd yn helpu cyflawni hyn.

Er ein bod wedi mynd ar drywydd gweithio ar y cyd a **chydweithio** erioed, rydym yn archwilio ffyrdd mwy effeithiol o rannu gwybodaeth a hysbysrwydd, yn ogystal â chydlynu agosach wrth gynllunio a chyflawni ein gwaith gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r DU.

Rydym yn **cynnwys** ac yn **cydweithio** â staff a'r undebau llafur yn rheolaidd. Yn 2020, parhaom i fod ag un o'r sgorau ymgysylltu uchaf o holl sefydliadau'r gwasanaeth sifil ledled y DU sy'n cymryd rhan yn Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth – Civil Service People Survey: 2020 results.

## Integreiddio

Mae meddwl **integredig** yn ein helpu i **gydweithio** yn Estyn a gydag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid ehangach i gefnogi gwelliant. Rydym yn gweithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill a chyrff rheoleiddio, yn cydlynu ac yn cynllunio gweithgareddau fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur sy'n osgoi dyblygu ac yn sicrhau y caiff risgiau a phryderon allweddol eu harchwilio. Rydym hefyd yn gweithio'n agos ag AGC, AGIC ac Archwilio Cymru fel Arolygu Cymru.

Gan weithio gydag ystod o randdeiliaid allanol, rydym wedi cyfrannu at y cyhoeddiadau canlynol yn ymwneud â'r pandemig yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021:

- Mewn cydweithrediad â'r Consortia Gwella Ysglion Rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, GWE:
    - Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol
    - Modelau Dysgu Cyfunol
- Mewn cydweithrediad ag Edge Foundation, cyfrannom at Inspection across the UK: how the four nations intend to contribute to school improvement

Hefyd, cyhoeddom adroddiad thematig trosfwaol yn seiliedig ar ein gweithgareddau ymgysylltu yn Ionawr 2021. Roedd yr adroddiad 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19' yn cyfeirio Llywodraeth Cymru i weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Yn fewnol, mae ein hasesiadau effaith (cydraddoldeb a busnes, yn cynnwys effaith amgylcheddol) yn sicrhau ein bod yn gwneud y cysylltiadau rhwng materion ac yn gwneud penderfyniadau sy'n arwain at fuddion ehangach.

## Atal

Rydym yn cydnabod gwerth atal problemau rhag digwydd yn hytrach na mynd i'r afael â nhw ar ôl iddynt ddod i'r amlwg.

Mae llawer o'n gwaith mewn perthynas â diwygio addysg yn canolbwyntio ar atal. Yn benodol, gall arolygiadau thematig helpu nodi beth sy'n gweithio'n dda, rhwystrau rhag cynnydd a darparu astudiaethau achos o arfer sy'n datblygu. Er enghraifft, yn 2020, cyhoeddom adroddiad thematig Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig.

Mae ffyrdd newydd o weithio ar-lein wedi ein galluogi i barhau ein gwaith ag arolygiaethau Estonia, Fflandrys, Malta, Cyprus, a darparwr addysg uwchradd yn Sbaen ac IH2EC Ffrainc ar y prosiect "Better Inspection for Better Social Inclusion" (BIBESOIN). Roedd y cyfarfod rhithwir diweddaraf, a gynhaliwyd gan arolygiaeth Malta, yn canolbwyntio ar ddysgu o bell a lleihau gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol trwy ddysgu digidol, a defnyddio gemau addysgol law yn llaw â deallusrwydd artiffisial. Gwnaethom gyfraniad sylweddol at greu'r fframwaith, sydd yn ei bumed cyfnod datblygu ac yn barod i'w roi ar brawf mewn ysgolion yn Cyprus, o bosibl, yn 2021.

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Galwn hyn yn weithgarwch dilynol sy'n ddull **ataliol**. Trwy gydol 2020-2021, parhaom i ymgysylltu â darparwyr y canfuom fod angen gweithgarwch dilynol arnynt yn eu harolygiad craidd. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig ac atal gweithgarwch arolygu ym Mawrth 2020, nid yw arolygwyr wedi ymweld â darparwyr yn y categori gweithgarwch dilynol i fonitro'u cynnydd yn uniongyrchol. Mae arolygwyr wedi cefnogi darparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol statudol trwy gynadledda rhithwir.

Gweithiom ar y cyd ag awdurdodau lleol, gydag 19 o'r 22 awdurdod lleol yn cael Adolygiadau gan Banel Adolygu Cynnydd Estyn ar gyfer ysgolion a gynhelir; 10 awdurdod lleol ar gyfer Paneli Adolygu Cynnydd y sector Nas Cynhelir; a dau awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth i welliant â ffocws. Cynhaliom gyfarfodydd amlasiantaeth ar gyfer 12 o ysgolion uwchradd yn y categori mesurau arbennig. Buom yn cydweithio ag AGC ar ddau adolygiad â ffocws ar welliant mewn meithrinfeydd nas cynhelir, a chynhaliom un cyfarfod panel ar y cyd gydag AGC i adolygu cynnydd 18 o leoliadau nas cynhelir. Hefyd, gwnaethom ddau ymweliad â ffocws ar y cyd ag ysgolion annibynnol a oedd yn peri pryder, gydag AGC.

Mae arolygiadau thematig yn helpu **atal** problemau mewn addysg a hyfforddiant rhag datblygu neu waethygu drwy nodi polisïau neu arferion a fydd yn fuddiol i ddysgwyr ac yn cefnogi ansawdd darpariaeth addysgol a darpariaeth gysylltiedig.

Mae'r arfer affeithiol a amlinellwyd yn yr adroddiad thematig Gwydnwch dysgwyr – meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion yn amcanu at helpu arweinwyr a staff ysgolion i gefnogi gwydnwch eu disgyblion yn y cyfnod anodd hwn. Mae Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid (model cynaliadwy i Gymru) yn adroddiad thematig sy'n archwilio'r materion yn ymwneud â chymorth ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

### Tymor hir

Mae gennym heriau **hirdymor** i'w hwynebu mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru na welsom erioed mo'u tebyg o ganlyniad i'r achosion o COVID-19. Mae hyn law yn llaw â gofynion gwaith cynyddol ac ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol. Mae ein Polisi a chanllawiau rheoli risg yn ein helpu i gydbwyso anghenion tymor byrrach a thymor hwy.

Nod Estyn yw cefnogi deilliannau cadarnhaol yn y **tymor hir** ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, 2021-2022, bwriadwn barhau i gefnogi'r system addysg wrth adnewyddu a diwygio, ac yn benodol byddwn yn helpu ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a diwygio anghenion dysgu ychwanegol.

Byddwn yn canolbwyntio, felly, ar barhau â'n hymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i'w cefnogi ar eu taith cwricwlwm. Byddwn hefyd yn monitro ysgolion sy'n achosi pryder, ac yn ymgymryd â gwaith thematig cenedlaethol a gytunwyd. O'r gwanwyn 2022, amcanwn i gynnal peilot o'n trefniadau arolygu newydd mewn nifer fach o ysgolion ac UCDau. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud yn siŵr bod y newidiadau rydym wedi'u gwneud yn cefnogi adnewyddu a diwygio. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar y wybodaeth yn ein dogfennau canllawiau arolygu

newydd, ac yn ymgysylltu ag arolygwyr cymheiriaid ynglŷn â'r materion hyn yn nhymor yr hydref 2021.

Mae ein gwaith thematig cyhoeddedig yn cynnwys ffocws clir ar anghenion **hirdymor** dysgwyr a datblygu system addysg a hyfforddiant gynaliadwy i fodloni'r anghenion hyn. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr ystod o adroddiadau sector ynglŷn â 'chefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19'.

O ran astudiaethau achos arfer effeithiol gyda ffocws ar y **tymor hir**, mae Creu platfform digidol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion yn enghraifft o blatfform digidol unigryw ar gyfer y sector sydd wedi dod yn 'siop un stop' i ddysgwyr, ac mae cynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach. Mae Datblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion yn astudiaeth achos sy'n disgrifio ysgol sy'n mynd ati i gynllunio i ddatblygu medrau annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion.